

Rhif: WG42844



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Bil drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Gorffennaf 2021

## Tabl cynnwys

	Crynodeb .....	i
1.	Trosolwg o Ymatebion i'r Ymgynghoriad.....	5
	Dull dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad.....	6
2.	Adran 1: Pam mae angen y Bil.....	8
	Cwestiwn 1.....	8
	Consensws cryf ynghylch yr angen am y Bil .....	8
	Mae'r darpariaethau presennol yn effeithiol a digonol.....	9
	Angen am fwy o eglurder a chysondeb.....	9
	Cwmpas a Chyd-drafod Cyfyngedig.....	10
	Pryderon Capasiti.....	11
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o Gyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol (Y Cyngor Cysgodol) .....	12
	Ymatebion yn ôl sector: rhaid nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	13
3.	Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth Gymdeithasol .....	16
	Cwestiwn 2.....	16
	Ehangu cwmpas partneriaeth gymdeithasol .....	17
	Mwy o eglurder ynghylch dyletswydd partneriaeth gymdeithasol.....	18
	Gofynion adrodd .....	19
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	19
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	21
	Cwestiwn 3.....	23
	Ehangu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol .....	24
	Pryderon o ran gweithredu.....	24
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	25
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	26
	Cwestiwn 4.....	27
	Ehangu cwmpas .....	28
	Cysondeb.....	29
	Cymesuredd.....	30
	Cynrychiolaeth .....	30

	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	30
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	31
4.	Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith Teg .....	33
	Cwestiwn 5.....	33
	Cefnogaeth i'r dyletswyddau, ond galw am fwy o eglurder .....	34
	Canolbwyntio ar ganlyniadau .....	34
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	34
	Cwestiwn 6.....	37
	Cwmpas .....	37
	Gallu i gyflawni.....	38
	Materion eraill .....	38
	Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	38
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	40
	Cwestiwn 7.....	42
	Graddfa'r her .....	42
	Diffinio a chyflawni gwaith teg.....	42
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	43
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	44
	Cwestiwn 8.....	45
	Diwylliant o anogaeth .....	45
	Cysondeb a chydawnsedd .....	45
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	46
5.	Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.....	49
	Cwestiwn 9.....	49
	Eglurder a chysondeb .....	51
	Cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau.....	52
	Hyblygrwydd a chymesuredd .....	53
	Gwella'r arferion presennol .....	53
	Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	54
	Cwestiwn 10.....	57

Mesurau ychwanegol .....	57
Polisi presennol.....	58
Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	58
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	59
Cwestiwn 11.....	61
Cynnwys mwy o sefydliadau .....	61
Pryderon ynghylch cynnwys rhai sefydliadau.....	62
Angen eglurder .....	62
Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	62
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	63
Cwestiwn 12.....	64
Cysondeb â dyletswyddau caffael.....	65
Eithrio rhai sefydliadau.....	65
Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	65
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	66
Cwestiwn 13.....	66
Mesurau newydd.....	67
Cryfhau'r mesurau presennol.....	67
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	69
Cwestiwn 14.....	70
	Ehangu 71
Pryderon am ehangu.....	71
Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	72
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	73
6. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth	
Gymdeithasol .....	75
Cwestiwn 15.....	75
Cynrychiolaeth a mynediad.....	75
Amrywiaeth a thryloywder .....	76

	Cwestiwn 16.....	79
	Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	80
	Cwestiwn 17.....	82
	Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	83
7.	Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd.....	85
	Cwestiwn 18.....	85
	Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	86
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	87
	Cwestiwn 19.....	89
	Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	89
	Rhaid nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	90
	Cwestiwn 20.....	91
	Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	92
	Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	93
8.	Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cydraddoldeb ac Effeithiau.....	95
	Cwestiwn 21 .....	95
	Angen mwy o wybodaeth .....	96
	Effeithiau cadarnhaol .....	97
	Effeithiau negyddol.....	97
	Gwella effeithiau.....	98
	Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	99
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	99
	Cwestiwn 22.....	100
	Diffyg gwybodaeth.....	101
	Dull yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol .....	101
	Buddion.....	101
	Costau	101
	Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	102
	Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	103
	Cwestiwn 23.....	103

Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	104
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	105
Cwestiwn 24.....	105
Ymatebion yn ôl sector: aelodau'r Cyngor Cysgodol .....	107
Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	107
Cwestiwn 25.....	108
Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol.....	110
Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	110
Cwestiwn 26.....	111
Pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol .....	111
Cyfle am fwy o gysondeb polisi .....	112
Strategaethau ar gyfer hyrwyddo cydymffurfio.....	112
Pryder ynghylch cynrychiolaeth gyfyngedig y Cyngor a diffyg cyd- drafod .....	113
Cyfleoedd am eglurder.....	113
Pryderon ynghylch y potensial o allgáu busnesau bach a chanolig	114
Aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	114
Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol .....	115
Atodiad A. Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd.....	117
Atodiad B. Cwestiynau'r Ymgynghoriad.....	120

## **Crynodeb**

- i. Ar 26 Chwefror 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yr ymgynghoriad ar Fil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar sut roedd Llywodraeth Cymru'n cynnig cryfhau a hyrwyddo cysondeb yn system partneriaethau cymdeithasol Cymru, cyflawni canlyniadau gwaith teg a sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.
- ii. Yn benodol, roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i ymatebwyr roi sylwadau ar y Bil drafft ac ar bolisi ehangach sy'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar chwe maes allweddol:
  - Partneriaeth gymdeithasol (cwmpas a gofynion y ddyletswydd)
  - Gwaith teg (diffiniad, pwerau datganoledig i ddeddfu a phrosesau ar gyfer amcanion gwaith teg)
  - Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol (cyrff o fewn y cwmpas, dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a dyletswyddau rheoli contractau)
  - Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol (strwythur, aelodaeth a chynrychioliaeth)
  - Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd (partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, caffael cymdeithasol gyfrifol)
  - Cydraddoldeb ac effeithiau
- iii. Law yn llaw â'r brif ddogfen ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru wyth o weithdai rhanddeiliaid ar yr ymgynghoriad ac amrywiaeth o sesiynau briffio i fuddiolwyr.

Ymatebion i'r ymgynghoriad
- iv. Cyflwynwyd cyfanswm o 85 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r rhain:

- Roedd 66 yn ymatebion unigryw o sylwedd i'r 26 o gwestiynau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd dau o'r rhain yn Gymraeg a chyflwynwyd 14 trwy lwyfan ar-lein yr arolwg.
- Roedd 18 yn ymatebion ysgrifenedig, nad oeddent o angenrheidrwydd yn dilyn fformat yr ymgynghoriad nac yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad
- Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgyrch ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Nodir y canfyddiadau allweddol isod:

- v. Roedd cefnogaeth sylweddol i'r darpariaethau o fewn y Bil drafft a chytundeb helaeth ynghylch elfennau allweddol o'i gynnwys. Fodd bynnag, daeth rhai themâu allweddol i'r amlwg:

Partneriaeth Gymdeithasol (cwmpas a gofynion y ddyletswydd)

- Consensws cryf ynghylch yr angen am y Bil
- Galwadau am fwy o gysondeb ac eglurder polisi
- Angen ehangu cwmpas y bil i gael yr effaith mwyaf posibl
- Angen cyd-drafod yn ehangach er mwyn gwella cynrychiolaeth

Gwaith teg (diffiniad, pwerau datganoledig i ddeddfu a phrosesau ar gyfer amcanion gwaith teg)

- Cefnogaeth gref i egwyddorion gwaith teg
- Awydd am fwy o fanylion ar natur amcanion gwaith teg
- Mae heriau posibl yn cynnwys graddau undebaeth, problemau rhai sectorau, cyfyngiadau adnoddau a chyfathrebu.
- Doedd dim consensws clir ar ddiffiniad Gwaith Teg er bod diffiniadau lefel uchel a seiliedig ar weithredoedd yn cael eu ffafrio
- Rhywfaint o gefnogaeth i fabwysiadu'n llawn ddiffiniad yr adroddiad o Waith Teg



- Awgrym o ysgogiadau ychwanegol gan gynnwys canllawiau ychwanegol, cysondeb arferion a fframwaith mesur ar gyfer casglu data Gwaith Teg.

Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol (cyrff o fewn y cwmpas, dyletswyddau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol a dyletswyddau rheoli contractau)

- Croesawyd yn gyffredinol fel sbardun allweddol i waith teg
- Angen sicrhau cysondeb â deddfwriaeth bresennol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus
- Angen cadw cyfyngiadau adnoddau mewn cof, yn enwedig o ran busnesau bach a chanolig
- Yr angen i sicrhau cefnogaeth ddigonol i weithredu'r dyletswyddau
- Yr angen am weithredu dilynol digonol er mwyn gwella hygrededd
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Prifysgolion a'r trydydd sector yn bryderus ynghylch goblygiadau i statws elusennol

Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (strwythur, aelodaeth a chynrychioliaeth)

- Cefnogaeth gyffredinol i'r dull a amlinellir, ond gyda rhai pryderon ynghylch manylion y broses gyflawni
- Cwesiynau ynghylch pa mor gynrychioliadol yw Cyngor arfaethedig y Bartneriaeth Gymdeithasol
- Angen sicrhau amrywiaeth a chynrychioliaeth ar Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithsaol.
- Angen am fwy o dryloywder ynghylch y broses enwebu a dyrannu is-grwpiau
- Teimlad fod angen cyd-drafod ehangach y tu hwnt i aelodaeth Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol.
- Ni ddylai gweithredoedd Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol ddisodli trefniadau lleol

- Angen sicrhau a chynnal amrywiaeth ddigonol o sgiliau a phrofiad ar Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol

Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd (partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg, caffael cymdeithasol gyfrifol)

- Dylai'r pwyslais fod ar ddarparu cymorth i gyflawni canlyniadau gyda mesurau cydymffurfio yn cael eu defnyddio pa fo popeth arall wedi methu
- Defnyddio targedau, safonau ac enghreifftiau o'r arferion gorau i annog cydymffurfedd.
- Mwyafrif yn erbyn mecanwaith ddyfarnu ar lefel genedlaethol Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol.
- I'r lleiafrif a oedd yn cefnogi camau cydymffurfio, dylai'r pwerau fod yn gymesur, annibynnol ac destun craffu.
- Cefnogaeth gyffredinol i fecanwaith ddyfarnu annibynnol
- Ni all Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol ddyfarnu, gan y byddai hynny'n peri gwrthdaro

Cydraddoldeb ac effeithiau

- Nid yw asesiad o effaith y Bil drafft ar gydraddoldeb wedi ei gyhoeddi eto.
- Dylid cynnwys diffiniad penodol o nodweddion gwarchodedig yn y Bil.
- Angen eglurder a dadansoddiad pellach o gostau a sut y gallant amrywio yn ôl sector.
- Effeithiau cadarnhaol posibl ar y Gymraeg a dosbarthu cyfleoedd yn well trwy gadwyni cyflenwi lleol.
- Fodd bynnag, heriau posibl i fusnesau bach a chanolig a busnesau eraill sy'n ddibynnol ar gyflenwyr o Loegr.
- Potensial i wella effeithiau trwy ganolbwyntio ar drefniadau a chymhellion anffurfiol i annog cymryd rhan, yn ogystal ag adolygiad rheolaidd o effeithiau.

## 1. Trosolwg o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 1.1 Derbyniwyd cyfanswm o 85 o ymatebion unigryw i'r ymgynghoriad, ynghyd ag un dyblygiad, a gafodd ei anwybyddu.
- 1.2 Cyflwynwyd yr ymatebion o sylwedd trwy amryw o sianelau:
- Roedd 66 yn ymatebion unigryw o sylwedd i'r 26 o gwestiynau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.
  - Roedd dau o'r rhain trwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwynwyd 14 trwy lwyfan ar-lein yr arolwg, gyda'r gweddill wedi eu e-bostio'n uniongyrchol at Lywodraeth Cymru.
  - Roedd 18 yn ymatebion ysgrifenedig, nad oeddent o angenrheidrwydd yn dilyn fformat yr ymgynghoriad nac yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad
  - Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgyrch ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.
- 1.3 Mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion, gan gyflwyno trosolwg ar gyfer pob adran a ddilynir gan ddadansoddiad yn ôl:
- Aelodaeth o Gyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol Cysgodol neu sefydliad nad yw'n aelod o'r Cyngor Cysgodol<sup>1</sup>
  - Sector (cyflogwyr, undebau llafur, comisiynwyr ac unigolion)
  - Lleoliad (preifat, cyhoeddus, trydydd sector ac unigolion)
- 1.4 Amlinellir dadansoddiad o'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd yn Nhabl 1.1

---

<sup>1</sup> Noder y bydd rhai nad ydynt yn aelodau yn cael eu cynrychioli ar Gyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol trwy gyrrff fel TUC Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**Tabl 1.1 Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

<b>Sector</b>	<b>Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol</b>	<b>Aelodau o'r Cyngor Cysgodol</b>	<b>Total</b>
Comisiynydd		3	3
Cyflogwr: Preifat	6	3	9
Cyflogwr: Cyhoeddus	26	3	29
Cyflogwr: Trydydd	27	1	28
Unigolyn	3		3
Undeb Lafur	6	7	13
<b>Cyfanswm</b>	<b>67</b>	<b>17</b>	<b>85</b>

- 1.5 Cynhaliwyd cyfres o wyth o ddiwyddiadau i unglonion i drafod materion ynghylch y Bil drafft. Rhestrir y rhain isod.

Dyddiad	Thema
15.3.21	Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol: Diffinio Gwaith Teg
19.3.21	Sesiwn Agored trwy gyfrwng y Gymraeg
22.3.21	Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol: Sesiwn Gydymffurfedd
22.3.21	Sesiwn Agored trwy gyfrwng y Saesneg
23.3.21	Sesiwn Gaffael
23.3.21	Sesiwn Trydydd Sector
24.3.21	Sesiwn Gaffael 2
24.3.21	Sesiwn Comisiynwyr

**Dull dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad**

- 1.6 Cafodd yr holl ymatebion o sylwedd a gyflwynwyd a oedd yn cyfateb yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad eu casglu ynghyd mewn cronfa ddata ganolog. Cafodd pob un ei adolygu ar sail y cwestiwn perthnasol i dynnu sylw at y gwahanol safbwyntiau a fynegwyd.

- 1.7 Yn wyneb yr amrywiaeth hynod o eang o safbwyntiau a phwyntiau a wnaed, ni all y crynodeb gynrychioli'n ddigonol holl safbwyntiau'r ymatebwyr. Felly y dull a ddilynwyd oedd llunio themâu lle bo'n bosibl a chynnwys amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y rhain.
- 1.8 Mae ymatebion cyffredinol nad oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi a'u priodoli i'r cwestiwn perthnasol, lle bo'n addas. Roedd yn hyn anochel yn golygu dehongli rhywfaint o'r cynnwys, a hefyd yn gofyn am rywfaint o dybiaethau ar ran yr awduron o safbwynt y cwestiwn a oedd dan sylw.
- 1.9 Mae nodiadau o'r digwyddiadau gweithdai wedi cael eu dadansoddi a'u hymgorffori yn yr ymatebion cyffredinol lle bo'n bosibl.
- 1.10 Mae adrannau canlynol yr adroddiad yn cyflwyno'r ymatebion i bob cwestiwn o'r ymgynghoriad yn ôl thema allweddol a sector, wedi eu gwahanu yn ôl aelodaeth o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol a sefydliadau ac unigolion eraill.

## 2. Adran 1: Pam mae angen y Bil

### **Canfyddiadau allweddol:**

- Cefnogaeth gyffredinol i'r Bil drafft a chydabyddiaeth o'r manteision a ddaw yn ei sgil.
- Cydnabyddiaeth o'r cynnydd a wnaed eisoes gan sefydliadau yn y maes hwn.
- Cytundeb bod yr achos dros y Bil drafft wedi cryfhau ers y pandemig COVID-19 a'r heriau cymdeithasol ac economaidd ychwanegol mae wedi eu creu yng Nghymru
- Cydnabyddiaeth o gaffael fel arf defnyddiol i sbarduno newid.
- Galwadau helaeth am fwy o gysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth arall allweddol.

### **Cwestiwn 1**

- 2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 1 yn y ddogfen ymgynghori: 'A ydych yn cytuno â'r rhesymau a nodir ynghylch yr angen am y Bil? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr achos o blaid newid?' Mae'n ymwneud yn benodol â'r manteision a phryderon a godwyd ynghylch gosod dyletswyddau partneriaethau cymdeithasol mewn ddeddfwriaeth. Mae hefyd yn trafod sylwadau a wnaed ynghylch eglurder a diben y ddeddfwriaeth arfaethedig, sut y gellir cryfhau partneriaeth gymdeithasol, manteision canfyddedig partneriaeth gymdeithasol a beth y gellir ei gyflawni trwy ddeddfwriaeth.

### **Consensws cryf ynghylch yr angen am y Bil**

- 2.2 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno gyda'r rhesymau a nodwyd ynghylch yr angen am y Bil. Fodd bynnag, teimlai rhai fod cyfleoedd i ehangu'r cwmpas a gwreiddio'r Bil yn ddyfnach mewn polisi a threfniadau partneriaethau cymdeithasol presennol, yn ogystal ag angen am fwy o eglurder ynghylch natur dyletswyddau yn y ddeddfwriaeth drafft.

- 2.3 Roedd sefydlu sail statudol i bartneriaeth statudol yn cael ei ystyried fel cynnig cadarnhaol gan lawer o ymatebwyr.
- 2.4 Roedd ymatebwyr yn crybwyll hefyd sut fod angen y ddeddfwriaeth hon nawr i ymateb i heriau cymdeithasol ac economaidd sy'n wynebu Cymru yn sgil y pandemig Covid-19 sy'n parhau, awtomatiaeth ac i liniaru effaith Brexit o safbwynt sicrhau hawliau gweithwyr a oedd yn cael eu gwarchod o dan reoliadau'r Undeb Ewropeaidd a'r effeithiau ehangach posibl ar swyddi a bywoliaethau.

### **Mae'r darpariaethau presennol yn effeithiol a digonol**

- 2.5 O'r rheini a oedd yn amlwg yn anghytuno â'r angen am ddeddfwriaeth statudol, y prif reswm a roddwyd oedd bod y darpariaethau presennol yn effeithiol ac yn ddigonol.
- 2.6 Teimlai rhai cyflogwyr awdurdodau lleol na fydd y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn effeithio'n sylweddol ar y ffordd mae'n ymwneud ag undebau llafur oherwydd yr hyn a wneir eisoes. Awgrymwyd bod manteision gwaith teg yn cael eu cydnabod ac felly nid oedd yn glir sut y deuai'r ddeddfwriaeth â manteision yn ei sgil.

### **Angen am fwy o eglurder a chysondeb**

- 2.7 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw hefyd at yr angen am fwy o eglurder ynghylch termau'n ymwneud â natur dyletswyddau o fewn y bil Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn hwyluso cydymffurfedd ac osgoi achosion posibl o anghydymffurfedd trwy ddiffyg dealltwriaeth neu ymgais fwriadol i ddilyn llythyren ond nid ysbryd y Bil. Roedd eitemau o'r fath yn cynnwys:
- 'gwneud penderfyniadau strategol eu natur'
  - 'rhesymol'
  - 'Gwaith teg'
- 2.8 Codwyd pryderon hefyd ynghylch amlinellu dyletswyddau cyn belled â'r hyn sy'n rhesymol. Er bod hyn yn caniatáu ar gyfer graddau

pellach o hyblygrwydd, gall hefyd alluogi digwyddiadau o ddiffyg cydymffurfio.

2.9 Awgrymwyd cysoni pellach ar bolisi gan ymatebwyr er mwyn gwella eglurder y bil Partneriaeth Gymdeithasol a lleihau'r baich gweinyddol ar sefydliadau y mae'n ofynnol iddynt ddeall deddfwriaeth ychwanegol a chydymffurfio â hi. Roedd polisïau presennol perthnasol y tynnwyd sylw atynt am eu potensial am ddyblygu yn cynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2016)
- Cynllun Busnes yn Neddf Llywodraeth Cymru (2006)
- Diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o waith teg, sydd hefyd yn ymrwymiad yn y Cytundeb Masnach a Chydweithio (2020) gyda'r Undeb Ewropeaidd.

2.10 Roedd ymatebwyr yn dadlau'r angen am eglurder cysondeb polisïau presennol yn ogystal â'r cytundebau bargeinio ar y cyd presennol ar y lefel leol a threfniadol. Roedd undebau llafur yn benodol yn pwysleisio na ddylai cytundebau partneriaethau cymdeithasol llwyddiannus gael eu tanseilio gan y Bil yn ei nod o gysondeb trefniadau, felly roedd ymatebwyr yn argymhell cynnwys egwyddor dim atchwelyd yn y Bil.

2.11 Roedd ymatebwyr o'r sectorau Iechyd ac Adeiladu yn tynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai gofynion partneriaethau cymdeithasol yn rhyngweithio â'r strwythurau presennol yn y sectorau hyn yn sgil cymhlethdod y strwythurau presennol yn ogystal â'r tebygolrwydd yr effeithir yn fwy ar y sectorau hyn na'r lleill gan y newid deddfwriaethol arfaethedig.

### **Cwmpas a Chyd-drafod Cyfyngedig**

2.12 Roedd ymatebwyr yn codi pryderon hefyd ynghylch gallu deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol i gyflawni ei amcanion dywededig heb gynnwys sefydliadau yn ehangach o fewn cwmpas y Bil. Gan fod y Bil yn dibynnu ar undebau llafur fel partneriaid



cymdeithasol allweddol mae risg canfyddedig y byddai gweithwyr mewn sectorau lle nad oes undebau neu lle mae cyfraddau aelodaeth yn isel, yn enwedig yn y sector preifat, yn cael eu hallgáu o drefniadau partneriaethau cymdeithasol a'u manteision cysylltiedig.

- 2.13 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o sefydliadau y gellir eu tynnu o dan gwmpas y Bil Partneriaeth Gymdeithasol gan gynnwys:
- Trafnidiaeth Cymru
  - Sefydliadau Addysg Uwch
  - Pob sefydliad sy'n derbyn cyllid cyhoeddus. (Tynnwyd sylw at hyn gan undebau llafur a sefydliadau trydydd sector)
- 2.14 Roedd ymatebwyr yn cynnig nifer o strategaethau er mwyn ehangu'r cwmpas gan gynnwys
- Amodolrwydd cyllid cyhoeddus
  - Newidiadau i arferion caffael
  - Cytundebau gwirfoddol
- 2.15 Yn ogystal, codwyd pryderon mai undebau llafur ddylai fod yn unig gynrychiolwyr llais gweithwyr. Er bod cyfradd undebaeth yng Nghymru yn uwch na'r hyn yw yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae'n dal i fod gyfran sylweddol o'r gweithlu yng Nghymru na chaiff eu cynrychioli gan undebau llafur. Mae'r gweithwyr hyn yn tueddu i gael eu cyflogi mewn sectorau sy'n cynnwys rhai o'r ffurfiau mwyaf bregus a chamfanteisiol o gyflogaeth. Nodwyd hefyd y cyfraniad posibl gan undebau llafur na chaiff eu cydnabod ar hyn o bryd.
- 2.16 Felly, roedd ymatebwyr yn dadlau'r angen am ymgynghori ehangach gyda chymdeithasau undebol, sefydliadau trydydd sector a'r gymuned ehangach fel y gall y gweithwyr hyn gael llais ar Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol.

### **Pryderon Capasiti**

- 2.17 Roedd undebau llafur ac eraill yn lleisio'r angen i gael eu helpu i ehangu eu gallu i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil.
- 2.18 Roedd staff caffael y sector cyhoeddus yn bryderus ynghylch y gallu a'r capasiti i gyflawni ar y Bil, yn enwedig o safbwynt gofynion am fonitro contractau ar ôl caffael.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o Gyngor Cysgodol y Bartneriaeth Gymdeithasol (Y Cyngor Cysgodol)**

#### Cyflogwyr Sector Cyhoeddus

- Mae termau eang a ddefnyddir yn y Bil yn caniatáu ar gyfer dehongliadau eang a all alluogi osgoi gan gynnwys "gwneud penderfyniadau strategol eu natur" a "chamau rhesymol".
- Dylid osgoi mesurau cosbi gormodol i orfodi cydymffurfio

#### Cyflogwyr Sector Preifat

- Dylai'r Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol gynnig cyfleoedd am gydweithio gwirfoddol a rhannu gwybodaeth
- Pryder ynghylch cwrpas cyfyngedig yn sgil dibyniaeth ar undebau llafur lle mae llai o weithwyr yn aelodau o undebau yn y sector preifat

#### Undebau Llafur

- Gellid gwneud mwy i gysoni'r derminoleg a'r prosesau a nodir yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Mae'r ymadrodd "cyn belled ag sy'n rhesymol" yn rhy agored a dylid ei ddisodli gan ddyletswydd ddiamwys neu 'cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol'.
- Mwy o eglurder ynghylch mecanweithiau a sut maent yn rhyngweithio gyda phrotocol sefydledig ar lefel leol a lefel sefydliad.

- Angen monitro er mwyn adnabod yr arferion gorau a'r sefydliadau y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt.
- Pryder ynghylch ehangu i gynnwys sefydliadau yr effeithir arnynt gan y Bil gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, sefydliadau addysg uwch a phobl sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus.

#### Comisiynwyr

- Pryder ynghylch cyfyngu'r cwmpas i'r gweithlu sy'n aelodau o undebau yn wyneb lefelau undebaeth yn holl weithlu Cymru.
- Pryder ynghylch cymhlethdod ychwanegol a achosir gan y Bil a'r angen am fwy o gysondeb mewn gofynion adrodd rhwng polisïau presennol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### **Ymatebion yn ôl sector: rhaid nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

##### Cyflogwyr Sector Cyhoeddus

- Mae defnyddio'r term 'rhesymol' wrth benderfynu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn rhoi cyfle am ddiffyg cydymffurfio
- Mae'r gofyn i adrodd yn bwysig ond mae'n ychwanegu baich gweinyddol diangen, y gellid ei gynnwys fel ychwanegiad at ofynion adrodd presennol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol law yn llaw â rhesymau a roddir am ddiffyg cydymffurfio lle bo hynny'n berthnasol.
- Pwyso am gynnwys undebau na chaiff eu cynrycholi ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a sianelau i drafod materion sy'n effeithio ar weithlu'r sector preifat, neu'r rheini mewn gweithleoedd di-undeb y bydd penderfyniadau'n effeithio arnynt er hynny. Gellid lliniaru hyn yn rhannol gan lwybr cyfathrebu clir ar gyfer undebau llafur nas enwebwyd i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ac ymwneud â sefydliadau fel ACAS a Cyngor ar Bopeth.
- Ni ddylai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol wanhau'r trefniadau presennol ar gyfer bargeinio ar y cyd

- Mwy o eglurder ar fecanweithiau ar gyfer datrys anghydfodau yn enwedig mewn cyd-destunau cymhleth y gallai amryw o undebau llafur fod yn ymwneud â hwy ar wahanol lefelau ee y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu lle gallai hyn o bosibl beri oedi neu lesteirio gweithredu ar lefel sefydliad.
- Pryder ynghylch cyfyngiadau amser ac adnoddau i gyflogwyr ac undebau ac felly dylid rhoi cymorth i sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio yn hytrach na gweithredu mesurau cosbi gormodol.

#### Cyflogwyr sector preifat

- Er bod penderfynu rhwymedigaeth yn nhermau rhesymoldeb yn hyblyg, mae'n rhoi cyfle i osgoi cydymffurfio â dyletswydd.
- Dylid egluro diffiniad o safbwynt cyfieithiad sector-benodol ar gyfer y diwydiant adeiladu yn enwedig gan fod hwn yn sector y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn debygol o effeithio'n fawr arno.

#### Sefydliadau trydydd sector

- Dylid ystyried ehangu cwmpas y ddyletswydd i gynnwys cydnabod cymdeithasau llafur perthnasol neu gyrff sectorol, cyflogwyr trydydd sector ac ymgynghori'n ehangach â chymunedau.
- Angen iaith eglurach, gwreiddio'r ddyletswydd yn neddfwriaeth bresennol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac osgoi dyblygu beichiau gweinyddol.
- Mwy o eglurder ynghylch nodweddion gwaith teg.
- Mwy o gymorth o safbwynt cyllid a ddarperir i sefydliadau i geisio amdano i wella'r camau a wnânt o safbwynt y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.
- Dylai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol ymestyn i bob sefydliad sy'n derbyn cyllid cyhoeddus.

#### Undebau Llafur

- Codwyd pryderon ynghylch y graddau y gellir addasu'r Bil ar gyfer heriau yn y dyfodol, megis mathau newydd o gyflogaeth, twf cynyddol llafur gyda thechnoleg a'r cynnydd mewn gweithio o gartref.
- Cyfle i ledaenu cwmpas i bob corff cyhoeddus.

#### Ymatebion unigol

- Pwysigrwydd gwaith teg gan gynnwys y potensial i weithio'n hyblyg fel rhywbeth sy'n angenrheidiol i rieni, yn enwedig mewn rolau lefel uchel, sgiliau uchel mewn sefydliadau a all fod yn fwy cyndyn o weithredu arferion gweithio hyblyg.

### 3. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth Gymdeithasol

#### Canfyddiadau Allweddol:

- Cefnogaeth i'r ddyletswydd fel modd o gryfhau'r ddeddfwriaeth a'r arferion presennol
- Egwyddorion: Rhy gul ym marn rhai
- Ni ddylent ddisodli trefniadau lleol
- Anghytundeb ynghylch "rhesymol" mewn dyletswydd gymdeithasol
- Cefnogi'r angen i adrodd, ond dylid cysoni hyn ag adroddiadau eraill
- Ehangu sefydliadau sy'n destun dyletswydd partneriaeth gymdeithasol: Addysg Uwch / Addysg Bellach, Byrddau Partneriaeth Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb, sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus a sefydliadau a ffurfiwyd ers Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adnoddau yn bryder sylweddol - pob partner

#### Cwestiwn 2

- 3.1 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 2 yn y ddogfen ymgynghori: *'Beth yw eich barn ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil drafft?'* Mae'n rhoi sylw penodol i'r achos dros i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol gryfhau'r trefniadau presennol. Roedd ymatebion yn tynnu sylw hefyd at gyfleoedd i ehangu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol ymhellach.
- 3.2 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch cyfyngiadau adnoddau, beth a ystyrir yn 'rhesymol' mewn dyletswydd partneriaeth gymdeithasol, yr angen am fwy o gysondeb polisi ac ehangu'r cwmpas.

- 3.3 Roedd sefydlu dyletswydd gymdeithasol yn newid cadarnhaol ym marn llawer o ymatebwyr, gyda nifer o resymau'n cael eu crybwyll dros hyn gan gynnwys:
- Yr angen i 'gryfhau'r disgwyliad i ymgynghori a chyd-drafod yn ffurfiol'
  - Y cyfle i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i ddangos esiampl o'r 'arferion gorau gyda gwaith teg'
  - Cyfle i 'greu newid ar lefel system a gweithredu elfennau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)'
- 3.4 Yn ogystal, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr a oedd yn croesawu cyflwyno'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn tynnu sylw at eu harferion partneriaeth gymdeithasol presennol a sut nad oeddent yn disgwyl newidiadau mawr i'w gweithrediadau o ganlyniad i'r ddyletswydd newydd.

### **Ehangu cwmpas partneriaeth gymdeithasol**

- 3.5 Roedd ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch cwmpas a chyd-drafod y Bil gyda dibyniaeth ar aelodaeth o undebau, a all beri her i'r sector preifat lle mae llai o weithwyr yn aelodau undeb.
- 3.6 Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch dibyniaeth ar undebau llafur i gynrychioli llais gweithwyr, yn wyneb cyfraddau undebaeth yng Nghymru, sy'n neilltuol o isel yn y sector preifat ac ymysg gweithwyr sy'n wynebu'r risg mwyaf o gyflogaeth ansicr a chamfanteisiol.
- 3.7 Er mwyn cynyddu partneriaeth gymdeithasol ymysg y gweithlu ehangach, roedd ymatebwyr trydydd sector yn tynnu sylw at yr angen am fwy o ymgynghori gyda chymdeithasau masnach neu gyrff sectorol mewn diwylliant cyhoeddus, gwella hamdden neu iechyd, sefydliadau trydydd sector a'r gymuned ehangach.
- 3.8 Roedd rhai ymatebwyr o undebau llafur yn gweld y Bil hefyd fel cyfle i gryfhau trefniadau lle nad oes partneriaethau cryf rhwng cyflogwyr ac undebau llafur ar hyn o bryd.

- 3.9 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw pellach at yr angen am i'r bil partneriaeth gymdeithasol ehangu mewn cwmpas er mwyn cyflawni ei amcanion. Mae sefydliad yr awgrymir iddynt gael eu tynnu i gwmpas y Bil yn cynnwys:
- Trafnidiaeth Cymru
  - Sefydliadau addysg uwch
- 3.10 Tynnwyd sylw gan ymatebwyr at brosesau caffael ac amodolrwydd cyllid cyhoeddus fel modd posibl o ehangu cwmpas y Bil.
- 3.11 Yn ogystal, amlygwyd y defnydd posibl o gytundebau gwirfoddol gan ymatebwyr sector preifat fel modd o ehangu cwmpas y Bil i'r sector preifat.

### **Mwy o eglurder ynghylch dyletswydd partneriaeth gymdeithasol**

- 3.12 Codwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch eglurder rhai termau ac ymadroddion a gynhwysir yn y Bil gan gynnwys:
- 'gwneud penderfyniadau strategol eu natur'
  - 'camau rhesymol'
  - 'Gwaith teg'
- 3.13 Er bod rhai ymatebwyr yn cydnabod y byddai sefydlu dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol yn nhermau rhesymoldeb yn caniatáu mwy o hyblygrwydd ar lefel leol a sefydliadaol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn bryderus fod y defnydd o derm fel cyn belled ag sy'n 'rhesymol' yn brin o eglurder digonol ac y gellid ei ddefnyddio gan fusnesau fel modd o gyfiawnhau peidio â chydymffurfio.
- 3.14 Fel dewis arall, roedd un ymatebydd yn cynnig y dylid diwygio'r Bil i gynnwys yr ymadrodd 'cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol' i ychwanegu mwy o eglurder a lleihau'r potensial o beidio â chydymffurfio.
- 3.15 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn awgrymu y dylai fod mwy o gysondeb rhwng y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a Deddf



Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn lleihau'r potensial am ddryswch a symleiddio gofynion adrodd.

- 3.16 Yn olaf, roedd ymatebwyr yn codi pryder ynghylch sut y byddai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn rhyngweithio â strwythurau a threfniadau sy'n bod eisoes. Roedd ymatebwyr yn mynegi barn gref na ddylai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol danseilio trefniadau lleol a sefydliadol, lle'r oedd trefniadau o'r fath wedi profi'n llwyddiannus, yn enw cysondeb.

### **Gofynion adrodd**

- 3.17 Roedd adrodd a monitor data blynyddol yn cael ei groesawu gan ymatebwyr fel modd o fesur cynnydd, dangos pa sefydliadau sydd angen cymorth pellach a sicrhau cydymffurfedd.
- 3.18 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr o bob sector yn tynnu sylw at oblygiadau posibl y gofyn am adrodd o safbwynt yr amser a'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau hyn.
- 3.19 Cynigiwyd nifer o fesurau i liniaru'r pryderon hyn. Roedd y cynigion yn cynnwys:
- Yr angen am rannu gwybodaeth a'r arferion gorau.
  - Mwy o gysondeb gofynion adrodd gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
  - Sefydlu cronfa y gall sefydliadau geisio am arian i'w ddefnyddio i hwyluso sefydlu arferion partneriaeth gymdeithasol.
  - Darparu cymorth ehangach.
  - Osgoi mesurau rhy gosbedigol i orfodi cydymffurfedd.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

Cyflogwyr Sector Cyhoeddus

- 3.20 Mae'r termau cyffredinol a ddefnyddir yn y Bil yn caniatáu ar gyfer dehongliadau eang a allai alluogi osgoi, gan gynnwys "gwneud penderfyniadau strategol eu natur" a "camau rhesymol".
- 3.21 Dylid osgoi mesurau rhy gosbedigol i orfodi cydymffurfedd.
- Cyflogwyr Sector Preifat
- 3.22 Dylai'r Cyngor gynnig cyfleoedd am gydweithio gwirfoddol a rhannu gwybodaeth
- 3.23 Pryder ynghylch cwmpas cyfyngedig yn sgil dibyniaeth ar undebau llafur lle mae llai o weithwyr yn y sector preifat yn aelodau undeb.
- Undebau Llafur
- 3.24 Gellid gwneud mwy i gysoni'r derminoleg a'r prosesau a nodir yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 3.25 Dylid cefnogi undebau llafur i ehangu capasiti i gyflawni eu rhwymedigaethau partneriaeth gymdeithasol a chefnogi potensial undebau llafur nas cydnabyddir ar hyn o bryd i gyfrannu at bartneriaeth cymdeithasol.
- 3.26 Mwy o eglurder ynghylch mecanweithiau a sut maent yn rhyngweithio gyda phrotocol a sefydlwyd ar lefel leol a sefydliadol.
- 3.27 Angen monitro er mwyn adnabod yr arferion gorau a sefydliadau a allai fod angen cymorth ychwanegol
- 3.28 Trafod cynnwys sefydliadau eraill y mae'r Bil yn effeithio arnynt, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, sefydliadau addysg uwch a phob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus.
- Comisiynwyr
- 3.29 Pryder ynghylch cyfyngu'r cwmpas i'r gweithlu undebol yn wyneb lefelau o undebaeth yr holl weithlu yng Nghymru.

- 3.30 Pryder ynghylch cymhlethdod ychwanegol a achosir gan y Bil a'r angen am fwy o gysoni gofynion adrodd rhwng y polisiau presennol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

Cyflogwyr sector cyhoeddus

- 3.31 Mae defnyddio'r term 'rhesymol' wrth benderfynu dyletswydd partneriaeth gymeithasol yn rhoi cyfle am beidio â chydymffurfio.
- 3.32 Mae'r gofyn i adrodd yn bwysig ond mae'n ychwanegu baich gweinyddol diangen, gellid ei gynnwys fel ychwanegiad at y gofynion adrodd presennol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol law yn llaw â rhesymau a roddir dros beidio â chydymffurfio lle bo'n berthnasol.
- 3.33 Pwyso am gynnwys undebau na chaiff eu cynrycholi ar y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a sianelau i drafod materion sy'n effeithio ar weithlu'r sector preifat, neu'r rheini mewn gweithleoedd di-undeb y bydd penderfyniadau'n effeithio arnynt er hynny. Gellid lliniaru hyn yn rhannol gan lwybr cyfathrebu clir ar gyfer undebau llafur nas enwebwyd i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ac ymwneud â sefydliadau fel ACAS a Cyngor ar Bopeth..
- 3.34 Ni ddylai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol wanhau'r trefniadau presennol ar gyfer bargeinio ar y cyd.
- 3.35 Eglurder pellach ar fecanweithiau ar gyfer datrys anghydfodau, yn enwedig mewn cyd-destunau cymhleth lle gall amryw o undebau llafur fod yn ymwneud ar lefelau gwahanol ee y Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu lle gallai hyn o bosibl ohirio neu lesteirio gweithredu ar lefel sefydliad.

- 3.36 Pryder ynghylch cyfyngiadau amser ac adnoddau i gyflogwyr ac undebau llafur, felly dylid rhoi cymorth i sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio yn hytrach na mesurau gor-gosbedigol.

#### Cyflogwyr sector preifat

- 3.37 Er bod penderfynu rhwymedigaeth yn nhermau rhesymoldeb yn hyblyg, mae'n rhoi cyfle i osgoi cydymffurfio â'r ddyletswydd.
- 3.38 Dylid egluro'r diffiniad yn nhermau cyfieithiad penodol i sector ar gyfer y diwydiant adeiladu yn enwedig gan fod hwn yn sector y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn debygol o effeithio'n fawr arno.

#### Undebau llafur

- 3.39 Mae'r ymadrodd 'cyn belled ag sy'n rhesymol' yn rhy gyffredinol a dylid disodli hyn gan ddyletswydd gadarn neu 'cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol'.

#### Sefydliadau trydydd sector

- 3.40 Dylid ystyried ehangu cwmpas y ddyletswydd i gynnwys cydnabod cymdeithasau crefftau perthnasol neu gyrff sectorol, cyflogwyr trydydd sector ac ymgynghori ehangach â chymunedau.
- 3.41 Angen mwy o eglurder iaith, ymwreiddio yn neddfwriaeth bresennol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac osgoi dyblygu beichiau gweinyddol.
- 3.42 Mwy o eglurder ynghylch nodweddion gwaith teg.
- 3.43 Mwy o gefnogaeth o safbwynt cyllid a ddarperir er mwyn i sefydliadau geisio am arian o wella'r gweithredu a gyflawnir o safbwynt y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.
- 3.44 Dylai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol fod yn berthnasol i bob sefydliad sy'n derbyn cyllid cyhoeddus.

Ymatebion unigol

- 3.45 Pwysigrwydd gwaith teg gan gynnwys y potensial i weithio'n hyblyg fel rhywbeth angenrheidiol i rieni, yn enwedig mewn rolau lefel uchel, sgiliau uchel mewn sefydliad a allai fod yn fwy cyndyn o gweithredu arferion gweithio hyblyg.

### **Cwestiwn 3**

- 3.46 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 3 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir ac a ddiffinnir yn y tabl o dan yr adran hon?' Mae'n ymwneud yn benodol â'r graddau y cynhwysir egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, sut y dylid dehongli egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a'r sefydliadau y mae egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn berthnasol iddynt.
- 3.47 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a gynhwysir ac yn tynnu sylw at fanteision yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol presennol gan gynnwys:
- 'gall ymgynghori fod naill ai'n ddiystyr neu'n rhy hwyr oni bai fod cyd-drafod ar y cam ffurfiannol felly bydd ei gynnwys yn cryfhau hyn fel disgwyliad'
  - 'cydbwysu canllawiau â photensial am hyblygrwydd'
  - 'dull galluogi a 'chanllawiau' yn hytrach na bod yn rhy haearnaidd neu fanwldd'
- 3.48 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn teimlo hefyd y gellid ymestyn yr egwyddorion i gynnwys nodweddion eraill a oedd yn angenrheidiol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol ym marn ymatebwyr.
- 3.49 Roedd ymatebion yn cynnwys gradd o anghytundeb ynghylch cydnabod yr angen am hyblygrwydd trefniadau yn ôl heriau lleol a

sefydliadol, a'r angen i fod yn benodol er mwyn galluogi dealltwriaeth a chydymffurfedd.

### **Ehangu egwyddorion partneriaeth gymdeithasol**

- 3.50 Roedd ymatebwyr yn cydnabod yn helaeth yr angen am gynnwys cyd-gynllunio, rhannu gwybodaeth, a phrydlondeb ymgynghori fel egwyddorion sylfaenol partneriaeth gymdeithasol er mwyn galluogi ymgynghori ystyrllon wrth gyflawni egwyddorion ehangach partneriaeth gymdeithasol.
- 3.51 Roedd llawer o ymatebion yn codi pryder nad oedd y rhestr o egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn ddigon eang. Roedd amrywiaeth helaeth o awgrymiadau ynglŷn â hyn, a oedd yn mynd y tu hwnt i'r egwyddorion eu hunain, gan gynnwys:
- Cynnwys undebau llafur
  - Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
  - Amrywiaeth, Cynhwysiant a Thegwch
  - Cynnydd
  - Cynaliadwyedd
  - Dim atchwelyd
  - Arferion llafur nad ydynt yn camfanteisio
- 3.52 Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at fwy o angen i egwyddorion partneriaeth gymdeithasol ganolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy fel y gellir olrhain cynnydd.

### **Pryderon o ran gweithredu**

- 3.53 Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu hyblygrwydd egwyddorion partneriaeth gymdeithasol fel rhai dangosol yn hytrach na gorchmynion llym er mwyn galluogi trefniadau sy'n fwy addas i ddiwylliannau a heriau lleol

- 3.54 Yn ogystal, codwyd pryderon gan ymatebwyr na ddylai gweithredu partneriaeth gymdeithasol danseilio trefniadau lleol llwyddiannus sy'n bod eisoes er mwyn cysondeb.
- 3.55 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon y byddai caniatáu'r fath raddau o hyblygrwydd yn galluogi gwahanol ddehongliadau o egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a allai danseilio cysondeb, hwyluso peidio â chydymffurfio, a thanseilio cynnydd tuag at nodau gwaith teg.
- 3.56 Roedd un ymatebydd yn tynnu sylw at sut y gallai cyflwyno egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn y canllawiau yn hytrach na'r brif ddeddfwriaeth danseilio cydymffurfedd â'r egwyddorion a amlinellir.
- 3.57 Wrth gydnabod heriau posibl wrth weithredu awgrymodd un ymatebydd y dylid cyhoeddi egwyddorion partneriaeth gymdeithasol cyn cyflwyno'r Bil er mwyn hwyluso ei weithredu'n fwy effeithiol.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynwyr

- Gellid ehangu'r rhestr bresennol o egwyddorion i gynnwys cydweithio, ymddiriedaeth, urddas a pharch, llais a chyfranogiad, enillion cydfuddiannol, cydraddoldeb a hawliau dynol.

#### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Gellid cyhoeddi egwyddorion partneriaeth gymdeithasol ar gam cynnar yn y broses er mwyn cefnogi gweithredu'r ddeddf.
- Dylai'r egwyddor fod yn ddangosol yn hytrach na'n llym a haearnaidd fel bod gan bartneriaid cymdeithasol yr hyblygrwydd i ddatblygu trefniadau lleol sy'n fwy addas i ddiwylliannau lleol.

#### Cyflogwyr sector preifat

- Cefnogaeth gyffredinol ond nodwyd na osodwyd unrhyw rywmedigaeth ar undebau llafur i gydymffurfio â'r egwyddorion.

## Undebau llafur

- Argymhelliad y dylid cynnwys rhannu gwybodaeth, a chydraddoldeb yn y rhestr egwyddorion er mwyn galluogi gweithwyr i gael llais effeithiol wrth gydlunio eu hamodau gwaith eu hunain.
- Fel rhan o'r egwyddor gydlunio hon, dylid amlygu'r angen i ymwneud yn gynnar ag undebau llafur ar faterion perthnasol.
- Angen mwy o bwyslais ar yr angen i bartneriaethau cymdeithasol gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

## **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Gall cynnwys egwyddorion mewn canllawiau yn hytrach nag yn y ddeddfwriaeth fod yn annigonol i gyflawni newid.
- Dylai gynnwys prydlondeb cyd-drafod gyda phartneriaid cymdeithasol.
- Dylai egwyddorion fod yn hyblyg i alluogi addasu ar gyfer diwylliannau lleol.
- Pwysigrwydd cysondeb gweithredu ar draws sectorau.

### Cyflogwyr sector preifat

- Angen rhoi ystyriaeth gyfartal i anghenion busnesau ac undebau llafur.

## Undebau llafur

- Cyfle i gynnwys cynyddu a dim atchwelyd yn y rhestr egwyddorion er mwyn sicrhau ymgynghori ystyrllon ar amodau cyflogaeth ac na chaiff trefniadau lleol eu disodli er mwyn cael mwy o gysondeb.



- Ni ddylid byth ddefnyddio cyllid cyhoeddus i ariannu camfanteisio ar lafur, gan gynnwys yn y sector addysg bellach ac addysg uwch.

#### Cyflogwyr trydydd sector

- Dylid cynnwys yr egwyddor o gynhwysiant yn enwedig ar gyfer grwpiau a dan-gynrychiolir a phwyslais ar ansawdd a phrydlondeb ymgynghori.
- Cydlunio ddylai fod yr egwyddor gyntaf.
- Potensial i'r egwyddorion fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### Ymatebion unigol

- Dylai'r egwyddorion gyfeirio at degwch yn hytrach na chydaddoldeb er mwyn darparu ar gyfer gwahanol anghenion gweithwyr i sicrhau cyd-drafod teg iddynt yn y gwaith.

### **Cwestiwn 4**

- 3.58 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 4 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y rhestr o gyrff y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil drafft yn berthnasol iddynt? A ddylai'r rhestr o gyrff fod yn ehangach na'r rheini y mae'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt?' Mae'n ymwneud yn benodol â chwmpas y cyrff a gynhwysir yn y Bil ac a ddylid ehangu'r rhestr y tu hwnt i'r rhestr o gyrff a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd ymatebwyr hefyd yn cynnig strategaethau posibl ar gyfer ymestyn cwmpas cyrff a gynhwysir yn y Bil yn ogystal â'r angen am driniaeth a chynrychioliaeth gymesur o'r amrywiaeth helaeth o gyrff a gynhwysir yn y Bil.

- 3.59 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r rhestr o gyrff a gynhwyswyd ac yn tynnu sylw at fanteision y rhestr bresennol o gyrff a'i chysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys:
- 'Mae gorgyffwrdd rhwng amcanion y ddau fil ac felly gallai cynnwys yr un rhestr o gyrff mewn dull cyfannol optimeiddio siawns Llywodraeth Cymru o gyflawni ei nodau yn y ddau.'
  - 'Mae adlewyrchu'r un cyrff ag yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei groesawu gan yr NCC gan ei fod yn rhoi cysondeb rhwng y gwahanol Ddeddfau'
  - 'Mae'r rhestr o gyrff wedi ei diffinio'n dda ac yn cynnwys pryniannau mawr o nwyddau cyhoeddus.'
- 3.60 Fodd bynnag, teimlai ymatebwyr hefyd y gellid ymestyn y rhestr o gyrff i gynyddu cysondeb rhwng sectorau a cheisio'r uchafswm o effaith posibl i'r Bil.
- 3.61 I'r perwyl hwn, amlygwyd nifer o strategaethau i ymestyn cwmpas y Bil gan gynnwys amodoldeb cyllid cyhoeddus, arferion caffael, cynnwys partneriaethau cyhoeddus a sefydliadau sector cyhoeddus y dyfodol nad ydynt wedi eu sefydlu eto.
- 3.62 Roedd ymatebion yn cynnwys gradd o wahaniaeth rhwng barn leiafrifol yn cydnabod yr angen am gysondeb gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn lleihau dryswch posibl i sefydliadau sy'n dehongli eu dyletswyddau, ond yn cynnwys hefyd y farn fwyafrifol o ymestyn y rhestr o gyrff cyn belled â phosibl er mwyn gwella cysondeb rhwng sectorau a cheisio'r effaith mwyaf bosibl.

### **Ehangu cwmpas**

- 3.63 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymestyn y rhestr o sefydliadau a gynhwysir yn y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol er mwyn hyrwyddo cysondeb ar draws y sector a chynyddu effaith y Bil tuag at ei nodau crybwylledig.

- 3.64 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at y potensial i nifer o sefydliadau gael eu cynnwys yn y Bil, megis:
- Sefydliadau sector cyhoeddus: yr holl sefydliadau a berchnogir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rheini a sefydlwyd ers Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'r rheini a gaiff eu sefydlu ar ôl y bil partneriaeth gymdeithasol.
  - Sefydliadau sector lled-gyhoeddus: partneriaethau (ee byrddau partneriaeth rhanbarthol), sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, sefydliadau a berchnogir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru neu is-sefydliadau iddi, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
  - Sefydliadau sector preifat a thrydydd sector: pob sefydliad sy'n derbyn cyllid cyhoeddus a sydd â chysylltiadau gweithredol ag undebau llafur.
- 3.65 Cynigiwyd nifer o strategaethau gan ymatebwyr er mwyn dod â sefydliadau ychwanegol i'r gorlan gan gynnwys:
- Gosod amodau ar gyllid cyhoeddus.
  - Arferion caffael a phwerau cynllunio Llywodraeth Cymru.
  - Trefniadau trwyddedu cymdeithasol gwirfoddol.
  - Cynnwys sefydliadau sy'n cydnabod undebau llafur.
  - Cynnwys partneriaethau cyhoeddus a sefydliadau sector cyhoeddus a ffurfir yn y dyfodol.
  - Adolyg'r cyrff perthnasol yn rheolaidd.
- 3.66 Mynegwyd barn leiafrifol gan sefydliadau'n ymwneud â'r sector addysg uwch na ddylid cynnwys sefydliadau addysg uwch yn y rhestr o gyrff perthnasol.

### **Cysondeb**

- 3.67 Roedd barn leiafrifol yn croesawu'r rhestr bresennol o gyrff presennol heb ei newid oherwydd ei chysondeb gyda deddfwriaeth gaffael bresennol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 3.68 Roedd yr ymatebwyr hyn yn mynegi'r pryder y gallai ymestyn y rhestr o gyrff y tu hwnt i'r rhai yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol achosi dryswch ac anghydymffurfio anfwriadol yn ogystal â thanseilio cysondeb.
- 3.69 Felly, roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu cadw'r rhestr bresennol a sicrhau mwy o gysondeb rhwng y bil partneriaeth gymdeithasol a pholisïau presennol.

### **Cymesuredd**

- 3.70 Roedd ymatebwyr o'r trydydd sector yn codi pryderon bod yn rhaid cymryd gofal, yn wynebu yr amrywiaeth helaeth o gyrff a gynhwysir, i sicrhau bod dyletswyddau'n gymesur â sefydliadau unigol a'u galluoedd.

### **Cynrychiolaeth**

- 3.71 Roedd ymatebwyr trydydd sector yn tynnu sylw hefyd at y sefyllfa pe caiff y rhestr o gyrff perthnasol ei hehangu dylai fod gwell cynrychiolaeth o amrywiaeth y sefydliadau hyn ar Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### **Comisiynwyr**

- Dylai'r bil partneriaeth gymdeithasol geisio cynnwys hynny ag sy'n bosibl o sefydliadau gan gynnwys sefydliadau posibl yn y dyfodol nad ydynt wedi eu sefydlu eto.

#### **Cyflogwyr sector cyhoeddus**

- Dylid cynnwys pob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus.

- Dylid cynnwys pob sefydliad a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth gaffael bresennol er mwyn sicrhau cysondeb.

#### Cyflogwyr sector preifat

- Dylid cynnwys cyrff sydd â chysylltiadau gweithredol gydag undebau llafur.

#### Undebau llafur

- Angen deddfu i ymestyn y tu hwnt i gyrff a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, boed hynny trwy ddiwygio'r ddeddf honno o ran y sefydliadau a gynhwysir ynddi, ymestyn cynnwys fel mae'n ymwneud â'r bil partneriaeth gymdeithasol neu trwy drwyddedu cymdeithasol.
- Cynnwys sefydliadau a berchnogir yn rhannol neu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru ac is-sefydliadau ohoni.
- Cynnwys cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu ar hyn o bryd mewn partneriaeth fel y Byrddau Partneriaeth Gymdeithasol.
- Dylid defnyddio pwerau cynllunio Llywodraeth Cymru a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru i ymestyn y rhestr o sefydliadau mae partneriaeth gymdeithasol yn berthnasol iddynt.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Pryder a fyddai sefydliadau a ddaw i fod yn y dyfodol yn cael eu cynnwys, a sut fyddai gwneud hynny.
- Dylid cynnwys unrhyw sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, megis prifysgolion.
- Byddai angen cynnwys sefydliadau ehangach o'r sector preifat a'r trydydd sector er mwyn cael mwy o effaith.
- Cynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

#### Cyflogwyr sector preifat

- Dylid ymestyn gofynion partneriaeth gymdeithasol i bob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus, gyda'r taliad yn amodol ar fodloni'r gofynion hynny.

#### Undebau llafur

- Dylid ymestyn y rhestr i gynnwys pob corff cyhoeddus datganoledig yn ogystal â sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, Estyn, Cymwysterau Cymru a CBAC.
- Cynnwys sefydliadau nad ydynt wedi eu sefydlu eto megis y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

#### Cyflogwyr trydydd sector

- Angen ystyried a yw'r dyletswyddau'n addas a chymesur i sefydliadau yr effeithir arnynt.
- Angen ehangu rhestr o sefydliadau a gynhwysir yn y Bil i'r holl rai hynny sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, gyda gwell cynrychioliaeth o'r sefydliadau hyn ar y Cyngor.

#### Ymatebion unigol

- Dylai anghenion merched a rhieni gael eu hystyried gan gyrrff cyhoeddus perthnasol

## 4. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith Teg

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried yr ymatebion i gwestiynau ynghylch gwaith teg, gan gynnwys y dyletswyddau arfaethedig ar Weinidogion Cymru, heriau allweddol a blaenoriaethau ar gyfer cyflawni a hyrwyddo gwaith teg, y diffiniad cyfreithiol ac ysgogiadau eraill y gellid eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg.

### Canfyddiadau allweddol:

#### Amcanion:

- Cymorth cryf i egwyddorion gwaith teg
- Awydd am fwy o fanylder ar natur amcanion gwaith teg

#### Heriau / Blaenoriaethau:

- Graddau undebaeth yng ngweithlu Cymru
- Pryderon ac adnoddau sectorau / gallu i gyflawni
- Angen cyfathrebu er mwyn sicrhau dehongliad cyffredin

#### Diffiniad:

- Dim consensws clir er bod diffiniadau lefel uchel a seiliedig ar weithredoedd yn cael eu ffafrio
- Rhywfaint o gefnogaeth i ddiffiniad yr adroddiad o Waith Teg gael ei fabwysiadu'n llawn

#### Ysgogiadau eraill:

- Canllawiau eraill, gan gynnwys rhannu'r arferion gorau
- Annog cysondeb arferion rhwng gwahanol gyrff a'i gilydd
- Sicrhau fframwaith mesur i gasglu data ynghylch Gwaith Teg

## Cwestiwn 5

- 4.2 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 5 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y dyletswyddau arfaethedig a roddir ar Weinidogion Cymru o ran amcanion gwaith teg?' Mae ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd i bennu amcanion gwaith teg wrth ymgynghori â Chyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol a'r hierarchaeth gweithredoedd a

gynhwysir yn hyn. Mae'r rhain yn cynnwys pennu nod gwaith teg, amcanion, mesurau i'w cymryd i gyflawni'r nodau ac adrodd blynyddol.

### **Cefnogaeth i'r dyletswyddau, ond galw am fwy o eglurder**

- 4.3 Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor o waith teg yn wyneb graddau'r anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Dywedwyd bod hyn wedi cael ei amlygu trwy'r pandemig COVID-19.
- 4.4 Roedd ar rai ymatebwyr eisiau mwy o eglurder ynghylch amcanion gwaith teg a'u statws o ran a oeddent yn orfodol neu'n seiliedig ar ddisgresiwn Gweinidogion. Roedd awydd hefyd am fwy o eglurder ynghylch y nod o waith teg a'r broses graffu ar gyfer adroddiadau blynyddol, er y cydnabuwyd gan rai y pennir hyn ar ôl deddfu.
- 4.5 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio dulliau ehangach y tu hwnt i ddeddfwriaeth i gyflawni amcanion gwaith teg. Gallai'r rhain gynnwys defnyddio'r trefniadau presennol, canllawiau a hyrwyddo arferion gwaith teg.

### **Canolbwyntio ar ganlyniadau**

- 4.6 Roedd teimlad cyffredinol ei bod yn bwysig fod amcanion gwaith teg yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phroses ac y dylid rhoi monitro effeithiol ar waith i fesur cynnydd.
- 4.7 Awgrymwyd y dylai monitro perfformiad gynnwys mesurau ac iddynt derfyn amser i asesu cynnydd tuag at amcanion, effaith ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai dan anfantais.
- 4.8 Dylid ystyried gallu sefydliadau unigol i wneud cynnydd tuag at amcan – gan ystyried perfformiad sylfaenol a'r gallu i wella.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

Comisiynwyr



- Dylai amcanion gwaith teg geisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ymwreiddiedig mewn cyflogaeth, yn enwedig i'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- Dylid datblygu amcanion trwy gynllun ac iddo derfyn amser er mwyn cyflawni amcanion penodol a adolygir yn rheolaidd i asesu effeithiau.
- Dylai'r amcanion gyfeirio'n glir at y Gymraeg a chynnwys y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

#### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Angen mwy o eglurder ynghylch manylion amcanion gwaith teg a'r hyn a ddisgwylir er mwyn eu cyflawni.
- Angen am ymgynghori eang ac ystyried yr heriau i wahanol sefydliadau. Dylai'r rhain gynnwys eu cwrpas a'u perfformiad presennol fel sefydliad yn ogystal â chyfyngiadau amser ac adnoddau.

#### Cyflogwyr sector preifat

- Croeso i'r gydnabyddiaeth fod gan y sector preifat ran i'w chwarae wrth gyflawni amcanion.
- Pryder ynghylch effaith amcanion gwaith teg yn sgil y sylw cyfyngedig i'r sector preifat, a diwydiannau fel lletygarwch heb gael eu cynnwys yn y Bil.
- Cydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau bod dyletswyddau'n gyson ar draws y Bil partneriaeth gymdeithasol a meysydd blaenoriaeth.

#### Undebau llafur

- Gweinidogion ddylai fod â'r cyfrifoldeb o weithredu amcanion gwaith teg.
- Pwysigrwydd egluro ystyr 'cenedl gwaith teg' yn enwedig mewn cyd-destun ôl-pandemig.
- Dylai amcanion gwaith teg gynnwys darpariaethau ar gyfer datblygu proffesiynol.

## **Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Teimlai rhai cyflogwyr fod angen am fwy o eglurder ar fanylion y dyletswyddau a osodir ar Weinidogion a pha amcanion gwaith teg a gaiff eu dewis.
- Mynegwyd pryderon ynghylch anawsterau cyflawni cydraddoldeb o fewn y sector cyhoeddus, yn enwedig yng nghyd-destun yr heriau ychwanegol a achosir gan y pandemig.
- Mae'n bwysig fod amcanion gwaith teg yn cael eu ffurfio trwy gyd-drafod ehangach a'u bod yn ddigon hyblyg i ystyried heriau penodol gwahanol sefydliadau a sectorau, gan gynnwys costau cysylltiedig â chydymffurfio.
- Pwysigrwydd defnyddio dulliau tu hwnt i ddeddfwriaeth o gyflawni amcanion gwaith teg.
- Angen eglurder pellach ynghylch sut y creffir ar adroddiadau blynyddol gan y Senedd.

### Cyflogwyr sector preifat

- Bydd gallu busnesau cadwyni cyflenwi i gyflawni amcanion gwaith teg yn deillio o arferion caffael teg megis taliad prydlon a theg am nwyddau a gwasanaethau.

### Undebau llafur

- Mae angen i'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn ehangach fod ag adnoddau digonol i ymdrin â'r dyletswyddau ychwanegol a gynhrychir gan y ddeddfwriaeth hon.
- Mae cyfle i Lywodraeth Cymru dderbyn yn llawn y diffiniad o waith teg a'r argymhellion fel y'u hamlinellir yn y Comisiwn Gwaith Teg.
- Angen cynnwys cyllid ar gyfer sgiliau/ailhyfforddi yn dilyn cyflwyno technoleg a allai effeithio'n negyddol ar weithwyr.

### Cyflogwyr trydydd sector

- Pwysigrwydd yngynghori eang y tu hwnt i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ac angen mwy o amrywiaeth yn aelodaeth y Cyngor.
- Angen eglurder pellach ynghylch sut y trefnir ac y creffir ar adroddiadau blynyddol gan y Senedd. Pryd na fydd hunan-adrodd yn hwyluso craffu effeithiol ac y bydd yn draul sylweddol ar adnoddau.
- Cyfle i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn sail ar gyfer pennu amcanion gwaith teg a'r adroddiadau cynnydd cysylltiedig.

#### Ymatebion unigol

- Angen mwy o bwyslais ar gyfleoedd am weithio hyblyg a hawliau rhieni, yn enwedig i famau.

### **Cwestiwn 6**

4.9 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 6 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y prif heriau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer anelu at waith teg a'i hyrwyddo?' Mae ymwneud yn benodol â chwmpas y cyrff a gynhwysir yn y Bil ac a ddylid ymestyn y rhestr y tu hwnt i'r rhestr o gyrff a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.10 Dylid nodi bod llawer o'r ymatebion i'r adran hon wedi dod yn ffurf awgrymiadau am flaenoriaethau a all fod y tu allan i gwmpas y Bil.

### **Cwmpas**

4.11 Roedd sicrhau y gall y Bil gefnogi'r rheini mewn gweithleoedd di-undeb yn cael ei weld fel her allweddol – gydag amcangyfrif fod bron i 70 y cant o'r gweithlu mewn lleoliadau di-undeb. Pwysleiswyd yr angen am sylw penodol i'r rheini ar gontractau dim oriau ac i'r gweithlu gofal cymdeithasol.

- 4.12 Hefyd, cynigiodd ymatebwyr strategaethau posibl ar gyfer ymestyn cwmpas cyrff a gynhwysir yn y Bil yn ogystal â'r angen am driniaeth a chynrychiolaeth gymesur o amrywiaeth helaeth a gyrff a gynhwysir yn y cwmpas.

### **Gallu i gyflawni**

- 4.13 Roedd cyfyngiadau cymhwysedd datganoledig a bygythiad canfyddedig o ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig fel Bil y Farchnad Fewnol yn cael eu nodi fel heriau i'r Bil. Er enghraifft, nid yw deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol wedi ei datganoli i Gymru ac mae'n gorwedd o fewn cylch gwaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig.
- 4.14 Mynegwyd ofnau y byddai rhai sefydliadau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, yn ei chael yn anodd cydymffurfio â gofynion y Bil.
- 4.15 Nodwyd prinder y data sydd ar gael fel anhawster o ran deall profiadau'r gweithlu, yn enwedig y rheini â nodweddion gwarchoddedig.

### **Materion eraill**

- 4.16 Roedd ar randdeiliaid eisiau sicrhau bod cyfathrebu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r hyn mae'r deddfwriaeth yn ceisio'i gyflawni.
- 4.17 Roedd meysydd blaenoriaeth yn cynnwys cysylltu rhwymedigaethau gwaith teg ag unrhyw gyllid grant, hyrwyddo datblygiad sgiliau a mynd ati'n fwriadol i annog aelodau o undebau llafur a bargeinio ar y cyd yn y gweithle.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynwyr

- Roedd pryder y gallai effaith cyfraddau isel o aelodaeth undebau gyfyngu ar effaith y Bil.

- Pwysleisiwyd bod y pandemig wedi cryfhau'r angen am deddfwriaeth; gan ei fod wedi dwysáu heriau cymdeithasol ac economaidd a oedd yn bod eisoes ac achosi rhai newydd, megis y risg o gael eu heintio mewn gwaith.
- Effeithir mewn modd anghymesur ar grwpiau penodol mewn cymdeithas. Roedd bylchau yn y data yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ddeall graddfa'r heriau, yn enwedig i bobl ac iddynt nodweddion gwarchoddedig.
- Angen ehangu diwylliant cyfleoedd gweithio hyblyg.

#### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Angen cydnabod cyfyngiadau gweithredu deddfwriaethol a cheisio cyfleoedd am effaith trwy ddulliau eraill, megis y trefniadau presennol, canllawiau, gweithredu ar y cyd a hyrwyddo arferion gwaith teg.

#### Cyflogwyr sector preifat

- Cydnabod yr heriau i wahanol sefydliadau a sectorau a'u galluoedd (yn enwedig busnesau bach a chanolig) i gyflawni'r newid a ragwelir.
- Angen am fwy o gymorth i Bartneriaid Cymdeithasol a lle bod capasiti annigonol ar hyn o bryd i gydymffurfio â dyletswyddau.

#### Undebau llafur

- Mae heriau penodol yn wynebu rhai sectorau gan gynnwys gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a chyfleustodau. Mae'r pryderon yn cynnwys cyflogaeth o ansawdd wael ac anghydraddoldeb parhaus.
- Cydnabyddiaeth o gyfyngiadau ysgogiadau i ddylanwadu ar newid ar faterion cyfraith gyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol sydd heb eu datganoli.
- Cydnabuwyd cyfraddau isel o aelodaeth o undebau; felly dylai fod blaenoriaeth i hyrwyddo undebau llafur.

- Mae angen ehangu capasiti busnesau bach a chanolig ac undebau llafur i allu gweithredu arferion gwaith teg ac ystyried unrhyw gostau cysylltiedig.
- Gellid rhoi ffafriaeth yn y broses geisiadau i gyflogwyr sy'n cefnogi egwyddorion gwaith teg.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Cyflogwyr sector cyhoeddus

- Heriau lle na fydd gweithio hyblyg efallai'n ddichonadwy, er enghraifft yn y sector cyhoeddus a'r economi 'gig'.
- Her i rai cyflogwyr weithredu deddfwriaeth yn sgil diffyg adnoddau a dealltwriaeth o arferion gwaith teg.
- Dylid blaenoriaethu creu cyfleoedd gwaith teg gyda sicrwydd cyflogaeth a rheolaeth dros amodau gwaith.
- Pwysigrwydd cefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl gweithwyr.
- Ystyried effaith y pandemig ar swyddi ac arferion gwaith.

#### Cyflogwyr sector preifat

- Bydd gorfodi a chymhellion yn anodd i rai sefydliadau sector preifat, a gellid cywiro hyn trwy newidiadau i'r broses gaffael.

#### Undebau llafur

- Pryder ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol cyfyngedig yn y maes hwn a photensial am erydu pellach trwy Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.
- Hyrwyddo cynrychiolaeth a chydabyddiaeth undebau llafur yn y gweithle.
- Heriau'n codi wrth i allu busnesau bach a chanolig i ddarparu ar gyfer dyletswyddau gwaith teg gael ei gyfyngu gan ymrwymïadau is-gontractio.

### Cyflogwyr trydydd sector

- Mae heriau penodol i'r sector yn y trydydd sector.
- Anghydraddoldeb yn y gweithle wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.
- Gweithio hyblyg i broblem neilltuol i ofalwyr.
- Bydd cyfyngiadau adnoddau yn anhawster.
- Mae cyfyngiadau pwerau datganoledig yn her.

### Ymatbion unigol

- Gwahaniaethu yn erbyn mamau a diffyg trefniadau gweithio hyblyg

## **Cwestiwn 7**

- 4.18 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 7 yn y ddogfen ymgynghori: 'A oes gennych chi farn ar sut mae fframio diffiniad cyfreithiol ar gyfer gwaith teg sy'n bodloni cyfyngiadau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac yn gwneud cynnydd o ran ein huchelgeisiau ar gyfer Gwaith Teg yng Nghymru?' Mae'n ymwneud â'r mater o sut y gall Llywodraeth Cymru ddiffinio gwaith teg o fewn cylch gwaith eu cymhwysedd deddfwriaethol wrth symud ymlaen at ymdrechion tuag at waith teg yng Nghymru.

### **Graddfa'r her**

- 4.19 Nid oedd consensws clir ymysg ymatebwyr ynghylch diffiniad gwaith teg. Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth helaeth o'r anawsterau a achosir wrth i elfennau o'r diffiniad yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, Gwaith Teg Cymru, fod y tu hwnt i'r cymhwysedd.
- 4.20 Y farn fwyaf cyffredin oedd deddfwriaeth lai manwl, gyda diffiniad mwy penodol yn cael ei nodi yn y canllawiau cysylltiedig – fel nod gwaith teg.
- 4.21 Roedd pob ymatebydd o undebau llafur yn ffafrio mabwysiadu'n llawn ddiffiniad adroddiad Gwaith Teg Cymru. Aeth lleiafrif o ymatebwyr ymlaen i dderbyn bod hyn yn herio cymhwysedd ac y gellid datrys unrhyw ganlyniadau. Awgrymwyd y gallai "unrhyw ymgais i wyro oddi wrth y diffiniad hwn arwain at ddryswch a gwanhau pwysigrwydd gwaith teg". Fodd bynnag, roedd ar y mwyafrif eisiau osgoi peryglu pasio'r Bil fel cyfanrwydd.

### **Diffinio a chyflawni gwaith teg**

- 4.22 Teimlai rhai ymatebwyr fod angen am fwy o eglurder neu ganllawiau cyfreithiol ynghylch materion cymhwysedd a beth a ganiateir o fewn diffiniad ehangach gwaith teg.



- 4.23 Y farn oedd bod cynrychiolaeth undebau llafur a bargeinio ar y cyd yn allweddol er mwyn cyflawni gwaith teg, yn yr ystyr fod llais y gweithiwr yn sail i bob agwedd arall o waith teg.
- 4.24 Nodwyd nad yw'r Bil drafft ond yn pennu nodweddion gwaith teg, yn hytrach na diffinio gwaith teg a'i berthynas â'r nodweddion hyn. Roedd ar rai ymatebwyr eisiau mwy o eglurder trwy awgrym o ddiffiniad ar y cam hwn i feddwl yn ei gylch.
- 4.25 Codwyd y mater o alluogi addasu yn y dyfodol, er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau strwythurol mewn arferion gwaith – megis twf yr economi 'gig'.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynwyr

- Cefnogi diffiniad a nodweddion gwaith teg, ond angen mwy o eglurder termau.
- Awgrymu cysoni gwaith teg â'r diffiniad o waith teilwng yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### Sector Cyhoeddus

- Angen prawf straen ar amrywiaeth o ddiffiniadau gwaith teg i adnabod pa rai sy'n disgyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.
- Potensial i fabwysiadu diffiniad llai manwl yn y Bil gyda diffiniad mwy penodol yn y canllawiau cysylltiedig.

#### Sector Preifat

- Pryder nad yw'r diffiniad yn ystyried yr angen i gyflogwyr ddefnyddio arferion gweithio hyblyg os yw'r gwaith yn ansicr.
- Dylai'r diffiniad o waith teg fod yn benodol ac ystyrlon.

#### Undebau llafur

- Cefnogaeth i'r diffiniad llawn o waith teg a gyflwynir yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg. Angen bod yn ddewr a chymryd risgiau.
- Diffinio gwaith teg yn nhermau hawliau sefydledig rhyngwladol megis rhyddid i ymgysylltu y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, a adlewyrchir yn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- Fel dewis arall, diffinio gwaith teg fel nod yn hytrach na dyletswydd ddeddfwriaethol.

## **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector cyhoeddus

- Dyhead yn hytrach na dyletswydd gyfreithiol, gyda gwybodaeth bellach yn y canllawiau cysylltiedig.
- Yr her yw y dylai'r diffiniad fod yn hyblyg ac yn ystyrllon.
- Rhai pryderon ynghylch sicrhau y gellir ei weithredu o fewn cylch gwaith deddfwriaethol y sector iechyd.

### Sector preifat

- Gellid cyfleu'r diffiniad trwy'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol.

### Undebau llafur

- Cyfle i ddiffiniad gwaith teg gael ei gysoni â diffiniad Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig.
- Gallai'r diffiniad gynnwys yr egwyddorion cynnydd a chynrychiolaeth undebau llafur i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer heriau yn y dyfodol.
- Mae cyfle i gyflwyno is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

### Trydydd sector

- Gellid clymu diffiniad gwaith teg â chymhwysedd o dan ddatblygu economaidd.

- Cefnogaeth i'r diffiniad o waith teg a gyflwynir yn adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.

Ymateb unigol

- Dylai'r diffiniad o waith teg gynnwys anghenion mamau sydd â chyfrifoldebau gofal plant.

### **Cwestiwn 8**

4.26 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 8 yn y ddogfen ymgynghori: 'Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, pa ddulliau eraill allai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg?' Mae'n ymwneud yn benodol â dulliau eraill y gallai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i symud ymlaen ymhellach tuag at nodau gwaith teg. Dylid nodi bod llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi gwneud awgrymiadau sydd y tu hwnt i gwmpas y Bil.

### **Diwylliant o anogaeth**

- 4.27 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol o blaid defnyddio ysgogiadau ariannol ynghylch caffael neu amodau cymorth grant i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg.
- 4.28 Roedd mwyafrif hefyd yn ffafrio annog cyflogwyr trwy adnoddau, megis astudiaethau achos o'r arferion gorau neu rannu profiadau. Roedd cefnogaeth gref i ddatblygu canollbwynt gwybodaeth cydweithredol yn y cyd-destun hwn.
- 4.29 Gwnaed y pwynt eto bod enillion sylweddol i'w gwneud yn y sector preifat, yn enwedig mewn lleoliadau di-undeb ac y byddai'n werthfawr annog y cyflogwyr hyn ar sail wirfoddol.

### **Cysondeb a chydawnsedd**

4.30 Roedd amryw o ymatebwyr yn nodi'r angen i sicrhau bod diffiniadau o waith teg yn gyson ag ymrwymadau deddfwriaeth a pholisi presennol,

megis Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Pwysleisiwyd hefyd yr angen i sicrhau cysondeb arferion rhwng gwahanol sefydliadau a'i gilydd.

- 4.31 Roedd amryw o ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am fframwaith mesur cadarn i gasglu data ynghylch gwaith teg a dangos cynnydd / amlygu meysydd a oedd angen sylw.

### **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynwyr

- Roedd un comisiynydd yn tynnu sylw at yr angen am asesiad llawn o'r effaith amgylcheddol ac yn cyfeirio at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae cydymffurfio â dyletswyddau penodol Cymru yn un o'r gofynion cyfreithiol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Roedd un arall yn awgrymu creu canolfan ragoriaeth ar gyfer caffael i gynghori a chefnogi cyflogwyr.

#### Sector Cyhoeddus

- Gellid annog cyflogwyr i fynd ymhellach a mabwysiadu arferion partneriaeth gymdeithasol ar sail wirfoddol y tu hwnt i gwmpas presennol deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol.
- Mwy o gydnabyddiaeth o rym trefniadau partneriaeth gymdeithasol lleol a all fod yn fwy addas ar gyfer amodau lleol o sabwynt cynhyrchu canlyniadau.

#### Sector Preifat

- Mwy o gydnabyddiaeth o'r rhan y gall busnes ei chwarae wrth gyfrannu at nodau gwaith teg a'r angen i gyflawni newid diwylliannol er mwyn cynyddu cyfranogiad.

#### Undebau Llafur

- Defnyddio trefniadau trwyddedu gwirfoddol i ehangu cwrpas y sefydliadau a gynhwysir. Hefyd, sefydlu canolfannau cydweithredol i wella'r ffordd y rhennir arferion da.
- Hyrwyddo undebau llafur i yrru'r agenda.
- Defnyddio amodoldeb cymhellion ariannol i gynnwys mynediad at undebau llafur ar draws sail gyflogaeth ehangach.
- Potensial am rôl comisiynydd i ddarparu capasiti ychwanegol am gyngor a chyfyngu.
- Datblygu canllawiau statudol ymhellach i fynd i'r afael â heriau sectorau penodol.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Cysylltiadau â chymhellion ariannol megis grantiau.
- Hyrwyddo brand gwaith teg, lle caiff busnesau sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol eu cydnabod am gyflawni'r arferion gorau.
- Mekanweithiau ehangach i dynnu syw at yr arferion gorau a'u rhannu a galluogi craffu lle bo safonau'n wael. Cynhyrchu dangosyddion cenedlaethol a monitro'n gysylltiedig â hynny.
- Gweithredu polisiau marchnad lafur gan gynnwys hyfforddi a chreu swyddi i gefnogi gwaith teg.
- Mabwysiadu Cyflog Byw mewn cyrff sector cyhoeddus fel esiampl.
- Ymgyrch i sicrhau dealltwriaeth gweithwyr o hawliau yn y gweithle.
- Hyfforddiant a chymorth i weithwyr mewn sectorau heb fod yn rhai gwaith teg i alluogi camu ymlaen mewn gyrfa a chyfle i sicrhau gwell amodau gwaith.

#### Sector Preifat

- Mesurau i wella llif arian ar hyd y gadwyn gyflenwi fel nad yw busnesau bach a chanolig wedi eu cyfyngu'n ariannol yn eu gallu

i gydymffurfio â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol, a allai godi allan o drefniadau is-gontractio.

#### Undebau Llafur

- Annog cyflogwyr i fabwysiadu'r arferion gorau yn wirfoddol trwy drefniadau trwyddedu.
- Canolfannau cydweithredol i hyrwyddo rhannu'r arferion gorau.

#### Trydydd Sector

- Mabwysiadu a hyrwyddo gwyliau taledig i ofalwyr.
- Gwella cyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad trwy gydol gyrfaeodd, ac nid ar y cychwyn yn unig.
- Creu canolbwynt i rannu gwybodaeth a'r arferion gorau.
- Gorfodi'r deddfwriaeth bresennol yn well.
- Angen ymgynghori gyda sefydliadau sydd ag arbenigedd mewn rhwystrau rhag gwaith teg i sectorau penodol o'r boblogaeth.
- Ymrwymiad i gylchoedd cyllido mwy hirdymor i alluogi cyflogwyr i weithredu arferion gwaith teg.
- Gosod amodau o fodloni meincnodau gwaith teg wrth ddarparu cyllid teg.
- Ymgyrch i sicrhau dealltwriaeth gweithwyr o hawliau yn y gweithle.

#### Ymateb unigol

- Gellid cynnwys gofynion adrodd ar rieni fel cyfran o'r gweithlu wrth adrodd data amrywiaeth.

## 5. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

### Canfyddiadau allweddol:

- Croesewir yn gyffredinol fel sbardun allweddol o waith teg
- Angen sicrhau cysondeb â deddfwriaeth bresennol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus
- Angen cadw'r cyfyngiadau adnoddau mewn cof, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig
- Mwy o gyfle i Lywodraeth Cymru liniaru hyn trwy ddarparu cronfa ddata ganolog o gyflenwyr wedi eu fetio
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Prifysgolion a'r trydydd sector yn bryderus am oblygiadau o ran statws elusennol
- Angen mecanweithiau adrodd a chwynion er mwyn hwyluso cydymffurfio
- Awydd am fwy o uchelgais ynghylch trothwy adeiladu
- Pryderon ynghylch eithrio cyrff gan gynnwys: landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cynghorau cymuned, cyrff llywodraethu ysgolion a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- Pryder ynghylch capasiti a gallu i fonitro cydymffurfedd, yn enwedig lle bo cadwyni cyflenwi cymhleth yn newid.
- Galwadau niferus dros fwy o gysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth allweddol arall.

### Cwestiwn 9

- 5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 9 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch safbwyntiau cyffredinol ar y darpariaethau a'r trothwyon a nodir ynghylch y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys y categorïau a restrir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol?' Mae'n ymwneud yn benodol â'r darpariaethau a'r trothwyon sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol arfaethedig. Roedd ymatebwyr hefyd yn rhoi sylw i'r potensial o wella canlyniadau

cymdeithasol gyfrifol, gwella cysondeb â deddfwriaeth bresennol a sicrhau triniaeth gyson o weithwyr ar hyd y gadwyn gyflenwi.

- 5.2 Roedd anghytundeb ymysg ymatebwyr ynghylch a oedd y darpariaethau a'r trothwyon sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol a nodir yn y Bil yn ddigonol.
- 5.3 Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r darpariaethau presennol. Mae'r rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr i gefnogi'r darpariaethau hyn yn cynnwys:
- 'Cytunwn â'r nod o sicrhau gwelliannau trwy'r cymalau enghreifftiol o ran llesiant, ac yn enwedig o safbwynt diwylliannol'
  - Gwella 'disgwyliadau rhanddeiliaid'
  - Cryfhau 'hawliau i gynrychioliaeth undeb lafur'
  - Darparu 'cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r rheini sy'n aml yn cael eu allgáu o'r gweithlu'
  - Sicrhau y bydd safonau'n cael eu 'gweithredu'n gyson drwy'r sector cyhoeddus'
- 5.4 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r darpariaethau presennol gan dynnu sylw at nifer o gwynion gan gynnwys:
- 'ni all contractau bach bob amser gyflawni'r un amrywiaeth o fuddion ar yr olwg gyntaf, felly nid yw gweithredu rheol gyffredinol o lefel gwariant ar grant er enghraifft bob amser o help'
  - 'goblygiadau gwerth contractau mewn cymhariaeth â hyd contractau'
  - 'mae'r rhan fwyaf o'r gwaith (yn ôl gwerth) sydd ar y gweill yng Nghymru ar hyn o bryd yn ymwneud â chontractau o dan £2 filiwn'
  - 'Mae angen i'r Bil fod yn llawer mwy diamwys yn ei ofynion a chael gwared ar lawer o'r iaith ddewisol'



5.5 Yn ogystal, roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r darpariaethau presennol yn tynnu sylw at y potensial i'r diffyg cysondeb polisi achosi dryswch ymysg cyflenwyr posibl ac adrannau caffael.

### **Eglurder a chysondeb**

- Roedd nifer o ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch cymhlethdod a gor-ddeddfu eisoes ym maes caffael ac felly'n amau'r angen am deddfwriaeth ychwanegol yn y maes hwn, gyda mecanwaith i wella'r modd o orfodi wrth gaffael ar hyn o bryd yn cael eu cynnig.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y cyfle i'r Bil hyrwyddo mwy o gysondeb ar draws contractau trwy fwy o gysondeb â'r safonau caffael a pholisi ehangach presennol gan gynnwys:
  - Safonau caffael yng Nghymru
  - Safonau caffael ledled y Deyrnas Unedig
  - Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru
  - Safonau comisiynu
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Lle na ellir osgoi gwahaniaethau mewn trothwyon caffael, er enghraifft lle maent yn gorwedd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, roedd ymatebwyr yn awgrymu y dylid rhoi rhesymau digonol am yr anghysondeb.
- Roedd ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch y mater o gynnwys y trothwy caffael o £2 filiwn heb roi sylw i hyd y contract, a allai olygu effeithio ar gontractwyr llai sy'n cyflawni contractau dros nifer o flynyddoedd nad yw'n gyson â gofynion ehangach polisi caffael.
- Gofynnwyd am fwy o eglurder hefyd (yn bennaf gan y sectorau addysg uwch a thai) ar sut y bydd y dyletswyddau caffael arfaethedig yn gweddu â'r deddfwriaeth bresennol ar gyfer elusennau gan y gall fod gwrthdaro posibl rhwng dyletswyddau caffael cysylltiedig a dyletswyddau elusennol.

- Roedd ymatebwyr trydydd sector yn pwysleisio fod angen mwy o fanylder yn y Bil i egluro beth a olygir gan grwpiau 'dan anfantais' yn y Bil.
- Roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r manteision i'w hennill wrth gynyddu eglurder a chysondeb mewn deddfwriaeth gaffael gan gynnwys llai o faich gweinyddol, risg o ddryswch a mwy o gydymffurfio.
- Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r risg o Lywodraeth Cymru'n mynd ati i ddeddfu ar gaffael lle caiff cynnydd ei fygwth gan ei chymhwysedd deddfwriaethol gyfyngedig yn y maes hwn yn wyneb y gwrthdaro posibl â Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (2020) a allai arwain o bosibl at heriau cyfreithiol a chwalu agenda gwaith teg Llywodraeth Cymru.

### **Cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau**

5.6 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o gyfleoedd posibl i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau caffael cymdeithasol gyfrifol yn y Bil, gan gynnwys:

- Lleihau'r trothwy caffael o £2 filiwn i gynnwys mwy o gontractau cyhoeddus.
- Adolygu'r trothwy caffael yn rheolaidd.
- Cynnwys yr iaith Gymraeg yn yr adran hyfforddiant addas i weithwyr.
- Cyflwyno dyletswyddau ychwanegol ar gyfer cyrchu mewnol a thrin gweithwyr yn deg.

5.7 Yn ogystal, teimlai ymatebwyr fod cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau trwy ddarparu mwy o graffu a mecanweithiau cydymffurfio gan gynnwys:

- Mwy o graffu lle bo digwyddiadau o beidio â chydymffurfio
- Cadarnhau adroddiadau blynyddol gan undebau llafur

- Cynnwys mwy o undebau llafur sydd ag arbenigedd caffael yn yr is-grŵp caffael
- Cynnwys cydnabyddiaeth o undebau llafur perthnasol o dan driniaeth deg o weithwyr.

### **Hyblygrwydd a chymesuredd**

- 5.8 Pryder y tynnwyd sylw ato gan ymatebwyr oedd er bod yr angen am gysondeb yn y maes hwn yn bwysig, rhaid caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y trothwy caffael.
- 5.9 Roedd ymatebwyr yn dadlau bod angen mwy o gymesuredd er mwyn sicrhau bod beichiau gweinyddol yn addas ac nad ydynt yn atal busnesau bach a chanolig rhag cystadlu yn y broses gaffael.
- 5.10 Roedd ymatebwyr Trydydd Sector yn tynnu sylw at y potensial y gallai'r darpariaethau atal sefydliadau cymunedol llai sydd â modelau gwerthoedd cymdeithasol gwahanol rhag ceisio am brosiectau a bod gofynion adrodd â'r potensial o dynnu oddi wrth flaenoriaethau eraill.
- 5.11 Codwyd pryderon gan ymatebwyr sector preifat ynghylch y potensial o ymyrraeth gweinidogion o dan y dyletswyddau arfaethedig a phwysleisiwyd y gellid cyflawni amcanion o wella gorfodaeth trwy ddefnyddio'r fecanwaith orfodi bresennol yn fwy effeithiol.
- 5.12 Pwysleisiodd ymatebydd Sector Cyhoeddus yr angen am i ymyrraeth Gweinidog fod yn gymesur ac y dylid ei drin fel y dewis olaf er mwyn osgoi peri oedi i brosiectau ac atal contractwyr llai na fydd ganddynt y capasiti ariannol efallai i ddygymod ag oedi o'r fath.

### **Gwella'r arferion presennol**

- Codwyd pryderon gan rai ymatebwyr fod angen mwy o weithredu ar y ddeddfwriaeth a'r dulliau presennol yn hytrach na deddfwriaeth ychwanegol. Gan gynnwys:
  - Mwy o hyfforddiant i gontractwyr a swyddogion caffael

- Hyfforddiant i swyddogion caffael ar sut i gyfrifo gwerth cymdeithasol
- Gorfodi mwy effeithiol

## **Ymatebion yn ôl sector: Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Comisiynydd

- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu, egluro a chryfhau rheoliad Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n ymwneud â chaffael.
- Cyfle i gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg o dan yr adran hon, gan ddarparu hyfforddiant addas i weithwyr.

### Sector Cyhoeddus

- Gwrthdrawiadau posibl yn codi rhwng dyletswyddau caffael a statws elusennol.
- Gallai'r potensial am ymyrraeth gweinidog gynyddu'r risg o oedi a allai hefyd atal contractwyr posibl.
- Gallai wneud trefniadau caffael cydweithredol ar draws Cymru a Lloegr yn fwy anodd.
- Dylid ei gysoni â deddfwriaeth bresennol, i leihau baich gweinyddol a dryswch i sefydliadau sydd mewn trafferthion yn sgil y pandemig.
- Angen sicrhau bod y ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, gwrthdaro posibl gyda Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

### Sector Preifat

- Diffyg cysondeb trothwyon rhwng cenhedloedd a'i gilydd a hynny heb reswm clir.
- Mae mecanweithiau gorfodi yn bod eisoes, angen rhoi rhesymau dros bwerau ychwanegol i Weinidogion.
- Pryder ynghylch anghydfodau cyfreithiol a allai darfu ar yr agenda gwaith teg.

- Pryder y gallai deddfu a gorfodi anghyson ar draws y Deyrnas Unedig ildio mantais annheg i rai cwmnïau.

#### Undebau Llafur

- Mwy o gysondeb gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r fframwaith comisiynu.
- Cyflwyno dyletswyddau ychwanegol ar gyfer cyrchu mewnol a thrin gweithwyr yn deg.
- Dylid ystyried cael undebau llafur i gadarnhau adroddiadau blynyddol.
- Mwy o gyfleoedd i herio digwyddiadau o beidio â chydymffurfio.
- Cynnwys undebau llafur yn fwy mewn is-grŵp caffael a chynhyrchu canllawiau.
- Dylai triniaeth deg o weithwyr gynnwys cydnabod undebau llafur perthnasol.

#### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

##### Sector Cyhoeddus

- Pryder gan sefydliadau addysg uwch a sefydliadau tai ynghylch goblygiadau dyletswyddau ar elusennau.
- Pryder ynghylch beichiau gweinyddol ychwanegol a chyfyngiadau adnoddau.
- Dylid cynyddu'r trothwy yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Llawer eisiau gweithredu dyletswyddau ar gontractau o dan y trothwy lle bo'n berthnasol a chymesur yn wyneb yr heriau i brosiectau llai.
- Tyndra rhwng eglurder a hyblygrwydd o ran trothwyon a therfynau amser.
- Dylid cynrychioli undebau llafur mewn is-grwpiau caffael.
- Angen hyfforddiant i gontractwyr a swyddogion caffael.

##### Sector Preifat

- Mwy o gyfle i ufuddhau yn wirfoddol yn hytrach na'n orfodol i reoliadau.
- Y radd posibl o reolaeth i gael ei gweithredu gan weinidogion dros gyrff sectorau anghyhoeddus yn ormodol, angen cymesuredd gofynion.
- Y mwyafrif o gontractau presennol Llywodraeth Cymru o dan y trothwy, felly gallai'r effaith fod yn gyfyngedig.
- Mwy o angen am iaith ddiamwys i osgoi cyfleoedd i osgoi.
- Pryder ynghylch ymwneud cyfyngedig gan y sector preifat pan fydd baich mwyaf y newidiadau yn disgyn ar y sector preifat.
- Pryder bod angen mwy o weithredu ar y ddeddfwriaeth a'r dulliau presennol yn lle ar ddeddfwriaeth ychwanegol.
- Angen am fwy o hyfforddiant a phrofiad i weithwyr proffesiynol caffael.

#### Undebau Llafur

- Dylai lefel y trothwy fod yn destun adolygu rheolaidd.
- Mwy o gynnwys undebau llafur sydd ag arbenigedd caffael mewn is-grŵp caffael.

#### Trydydd Sector

- Canolbwynio mwy ar ganlyniadau yn lle ar brosesau.
- Integreiddio'r angen am gydraddoldeb yn yr holl ofynion a manylu beth a olygir gan grwpiau dan anfantais.
- Potensial y gallai darpariaethau atal sefydliadau cymunedol llai sydd â modelau gwerthoedd cymdeithasol gwahanol rhag ceisio am brosiectau.
- Angen i weithwyr proffesiynol caffael gael eu hyfforddi mewn gwerthuso gwerth cymdeithasol.
- Ymestyn gofynion o dan y trothwy a nodwyd, hefyd pryder y gall y trothwy contractau fod yn rhy isel dros gyfnod hirach o amser.
- Potensial i'r angen am fodloni gofynion adrodd dynnu oddi wrth flaenoriaethau eraill.

Unigolion

- Dim ymateb o sylwedd.

### **Cwestiwn 10**

- 5.13 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 10 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y mesurau posibl, y tu allan i'r rheini a nodir, y byddai modd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol?' Mae'n ymwneud yn benodol â mecanweithiau ychwanegol y tu hwnt i'r Bil y gellid eu cynnwys i sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.
- 5.14 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o ffyrdd posibl y gellid ceisio caffael cymdeithasol gyfrifol y tu allan i'r Bil trwy gyflwyno mesurau ychwanegol yn ogystal â chryfhau'r polisi presennol.
- 5.15 Roedd ymatebwyr yn mynegi pryder hefyd fod potensial i'r Bil ddyblygu polisi a gofynion adrodd sy'n bod eisoes gydag effeithiau a allai fod yn negyddol o safbwynt llai o eglurder a graddau uwch o faich gweinyddol a allai arwain at leihad mewn cystadleurwydd busnesau bach a chanolig.

### **Mesurau ychwanegol**

- 5.16 Roedd ymatebwyr yn cynnig nifer o fesurau ychwanegol y gellid eu cyflwyno i gryfhau arferion caffael cymdeithasol gyfrifol. Roedd mesurau ychwanegol o'r fath yn cynnwys:
- Cyflwyno cydnabyddiaeth o undebau llafur fel amod i sefydliadau dderbyn cyllid cyhoeddus.
  - Mwy o gyd-drafod, hyfforddiant a dyrannu adnoddau tuag at sefydliadau llai.
  - Atgynhyrchu Rhaglen Datblygu Cyflenwyr yr Alban yng Nghymru er mwyn adeiladu cystadleurwydd busnesau bach a chanolig yn y gadwyn gyflenwi.

- Creu cronfa ddata ddigidol o gwmnïau sydd wedi sicrhau contractau cymdeithasol gyfrifol er mwyn lleihau baich gweinyddol.
- Cyflwyno mecanwaith cwynion i dynnu sylw at achosion o arferion drwg.
- Cyflwyno marc brand i gydnabod busnesau cymdeithasol gyfrifol er mwyn hyrwyddo busnesau cymdeithasol gyfrifol.

## **Polisi presennol**

**5.17** Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at y potensial o gryfhau'r defnydd o ddeddfwriaeth bresennol yn fwy effeithiol. Rhai o'r awgrymiadau i wella effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol oedd:

- Mwy o ddefnydd o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) i gryfhau caffael cymdeithasol gyfrifol.
- Integreiddio Themâu Canlyniadau a Mesurau (TOMs) i'r broses gaffael.
- Dyrannu pwyntiau ychwanegol yn y broses gaffael i fusnesau sy'n mynd ymhellach na'r gofynion cymdeithasol gyfrifol.
- Gwneud cadwyni cyflenwi yn fwy lleol.
- Ehangu cyfrifoldeb y tu hwnt i adrannau caffael.

## **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Comisiynydd

- Mae dyletswydd PSED benodol ar gaffael yn rhoi ysgogiad arall i gefnogi datblygiad caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

### Sector Cyhoeddus

- Gellid cyflawni canlyniadau'n well mewn rhai sectorau trwy'r cytundebau presennol.
- Dylid ymestyn cyfrifoldeb dros geisio canlyniadau y tu hwnt i weithwyr proffesiynol caffael.



- Gellid dyrannu pwyntiau ychwanegol yn y broses gaffael tuag at fusnesau sy'n mynd ymhellach na'r gofynion cymdeithasol gyfrifol.
- Integreiddio Themâu Canlyniadau a Mesurau (TOMs) i'r broses gaffael.

#### Sector Preifat

- Gellid datblygu busnesau bach a chanolig i fod yn gystadleuol yn y broses gaffael trwy atgynhyrchu Rhaglen Ddatblygu Cyflenwyr yr Alban yng Nghymru.
- Cyfrifoldeb ehangach dros gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol y tu hwnt i gaffael.
- Os daw gofynion adrodd yn rhy feichus yna bydd goblygiadau i adnoddau a chystadleurwydd busnesau.
- Gallai creu cronfa ddata ddigidol o gwmnïau sydd wedi sicrhau contractau cymdeithasol gyfrifol o'r blaen leihau rhai o'r beichiau hyn.

#### Undebau Llafur

- Dylai sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus gydnabod undebau llafur.
- Dylid lleihau dibyniaeth ar gadwyni cyflenwi a cheisio cyrchu gan gyflenwyr lleol.
- Dylid cynnwys cludo gweithwyr a chyflenwadau i gyflawni contractau.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg cyd-drafod, hyfforddiant a chyfyngiadau adnoddau sefydliadau a busnesau llai.
- Angen mwy o fanylder ar fonitro a gorfodi, dylai'r dull mesur gynnwys ymchwil ansoddol i asesu effaith a chanlyniadau.

- Pryder y gallai'r ddeddfwriaeth hon wrthdaro â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig sydd ar y ffordd, a hefyd leihau eglurder gofynon.
- Hyrwyddo enghreifftiau o'r arferion gorau a sianelau ar gyfer adborth cyflenwyr.
- Mae cyfrifoldeb dros gyflawni canlyniadau cymdeithasol yn ymestyn yn ehangach nag adrannau caffael.
- Mwy o bwyslais ar wella iechyd a llesiant gweithwyr.

#### Sector Preifat

- Mwy o bwyslais ar gefnogaeth yn hytrach na gorfodaeth i gydymffurfio.
- Angen i ofynion fod yn hyblyg i'r cyd-destun penodol.
- Angen mecanwaith i gwynion ynghylch arferion gwael gael eu huwchgwyfeirio a datblygu modd o'u gwerthuso a chyflwyno cosbau.

#### Undebau Llafur

- Cyflwyno safonau caffael cyfrifol gyda nodau brand cysylltiedig i hyrwyddo cydnabyddiaeth o fusnesau cymdeithasol gyfrifol.
- Angen sicrhau mwy o gysondeb caffael cymdeithasol gyfrifol ledled Cymru trwy ddull o weithredu'n eang.
- Sefydliadau nad ydynt yn caniatáu mynediad i undebau llafur i gael eu hallgáu o'r broses gaffael.

#### Trydydd Sector

- Angne mwy o hyblygrwydd, canllawiau a hyfforddiant.
- Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau seiliedig ar gydraddoldeb.
- Dylid cynnwys y sector gwirfoddol mewn strategaethau budd cymunedol.

#### Unigolion

- Angen bod gweithio hyblyg ar gael i famau.

## **Cwestiwn 11**

- 5.18 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 11 yn y ddogfen ymgynghori: 'Cwestiwn 11: Beth yw'ch barn ar y tabl o awdurdodau contractio uchod sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (Cod Dwy-Haen)?' Mae'n ymwneud yn benodol â barnau ar y rhestr o awdurdodau contractio a gynhwysir a'r defnydd o ddull haenog wrth benderfynu dyletswyddau.
- 5.19 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn anghytuno â'r tabl o awdurdodau contractio sy'n ymwneud â dyletswyddau dwy-haen gan eu bod yn codi pryderon na fyddai'r rhestr yn ddigon eang a bod ganddi felly'r potensial o danseilio gweithredu dyletswyddau'n gyson ar draws awdurdodau contractio.

## **Cynnwys mwy o sefydliadau**

- 5.20 Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol nad oedd y rhestr o gyrff a gynigir yn mynd yn ddigon pell.
- 5.21 Roedd ymatebwyr o blaid cynnwys cyrff ychwanegol gan gynnwys:
- Byrddau Partneriaeth Lleol
  - Cymdeithasau tai
  - Cynghorau cymuned
  - Cyrff llywodraethu ysgolion
  - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
  - Cyrff a ffurfir yn y dyfodol
- 5.22 Pryder ymatebwyr oedd os na fydd mwy o gyrff cyhoeddus yn cael eu cynnwys, na fydd dyletswyddau'n gyson ar draws y sector cyhoeddus ac y bydd hynny'n arwain at driniaeth anghyfartal o sefydliadau a'u gweithwyr.

- 5.23** Fodd bynnag, er bod ymatebwyr yn awyddus i ymestyn y rhestr o gyrff a gynhwysir, roedd llawer yn cydnabod y baich gweinyddol posibl a fyddai'n taro sefydliadau llai sydd â llai o gapasiti.
- 5.24** Roedd ymatebwyr yn awgrymu y gellid lliniaru hyn trwy ddarparu cymorth ariannol ychwanegol a mwy o bwyslais ar gymesuredd.

### **Pryderon ynghylch cynnwys rhai sefydliadau**

- 5.25** Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau addysg uwch wedi cael eu crybwyll gan ymatebwyr sy'n gysylltiedig â'r sectorau Tai ac Addysg fel rhai sydd angen eu heithrio o'r cod dwy-haen.
- 5.26** Roedd ymatebwyr yn pwysleisio eu statws fel sefydliadau elusennol a'r potensial i'r cod gweithlu dwy-haen wrthdaro â'u dyletswyddau elusennol o dan y gyfraith.

### **Angen eglurder**

- 5.27 Roedd rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am eglurder pellach ar hepgor rhai cyrff cyhoeddus.
- 5.28 Yn ogystal, gofynnwyd am fanylder pellach gan rai ymatebwyr a oedd yn bryderus am y gwrthdaro posibl rhwng dyletswyddau elusennol a dyletswyddau caffael.
- 5.29 Yn olaf, roedd ymatebwyr sector preifat yn gofyn am fwy o wybodaeth ar sut mae dyletswyddau cysylltiedig yn llifo i lawr y gadwyn gyflenwi. Roedd ymatebwyr yn bryderus y byddai'r rheini sy'n uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi yn cymryd dyletswyddau na all sefydliadau llai eu cyflenwi gan arwain at oblygiadau posibl i gystadleurwydd busnesau bach a chanolig mewn cadwyni cyflenwi.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

Comisiynydd

- Hoffem wybod a oes bwriad i gynnwys y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

#### Sector Cyhoeddus

- Dylid cynnwys pob sefydliad sy'n derbyn arian sector cyhoeddus er mwyn sicrhau cysondeb, fodd bynnag, pryderon ynghylch cynnwys sefydliadau addysg uwch.

#### Sector Preifat

- Angen eglurder pellach ar pam fod rhai awdurdodau contractio heb gael eu cynnwys a sut mae dyletswyddau'n llifo i lawr.

#### Undebau Llafur

- Dylid cynnwys cymdeithasau tai, cyngorau cymuned, gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru os yn bosibl.
- Pryderon ynghylch triniaeth anghyfartal o gyrff cyhoeddus llai yn arwain at ddiffyg cysondeb a thriniaeth anghyfartal o weithwyr.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Dim angen gwahaniaethu gan y gallai beri bygythiad i gysondeb, cydraddoldeb ac effaith.
- Dylai'r rhestr o gyrff y mae'r cynnig yn berthnasol iddynt fod mor helaeth â phosibl.
- Fodd bynnag, rhywfaint o bryder y byddai sefydliadau llai'n gael eu gorlwytho gan y cynigion pe na byddai gwahaniaethu. Angen i'r cynigion fod yn gymesur ac iddynt gael eu hwyluso gan gefnogaeth ariannol.

#### Sector Preifat

- Llawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn elusennau ac felly gallai cynigion yn y Bil wrthdaro â dyletswyddau elusennau yn sgil y potensial o gyfarwyddyd gan weinidogion.

#### Undebau Llafur

- Dylid cynnwys sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach o fewn y cwmpas.
- Lle na ellir ehangu'r cwmpas dylid defnyddio trefniant trwyddedu cymdeithasol i gynyddu'r cyfranogiad.

#### Trydydd Sector

- Angen esboniad pellach nam fod rhai cyrff sector cyhoeddus heb gael eu cynnwys.
- Llawer hefyd eisiau ystyried cynnwys darpariaeth ar gyfer cyrff sector cyhoeddus a sefydlir yn y dyfodol.

#### Unigolion

- Dim ymateb o sylwedd.

### **Cwestiwn 12**

- 5.30 Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 12 yn y ddogfen ymgynghori: 'A ddylid cadw'r rhestr bresennol o awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Cod y Gweithlu Dwy-Haen neu a ddylid cysoni hyn â gweddill y dyletswyddau caffael? A ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ffordd mae'r Cod yn gweithredu?' Mae'n ymwneud yn benodol â barnau a ddylai'r rhestr o awdurdodau contractio yr effeithir arnynt gael ei sefydlu fel yr amlinellir neu a ddylid ei chysoni â'r dyletswyddau caffael presennol er mwyn hyrwyddo cysondeb.
- 5.31 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ffafrio cysoni'r rhestr o awdurdodau contractio â'r dyletswyddau caffael presennol er mwyn sicrhau cysondeb.

- ‘manteisio i’r eithaf ar gaffael effeithiol’
- ‘sichrau cysondeb yn y sector cyhoeddus’
- ‘galluogi eglurder’

### **Cysondeb â dyletswyddau caffael**

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cysoni’r rhestr o awdurdodau contractio er mwyn sichrau cysondeb, osgoi dryswch a manteisio i’r eithaf ar y cod.

### **Eithrio rhai sefydliadau**

- Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau addysg uwch wedi cael eu crybwyll gan ymatebwyr sy’n gysylltiedig â’r sectorau Tai ac Addysg fel rhai sydd angen eu heithrio o’r cod dwy-haen.
- Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at y potensial i’r gweithlu dwy-haen wrthdaro â’u dyletswyddau elusennol o dan y gyfraith.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o’r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd

#### Sector Cyhoeddus

- Cytuno y dylid ei gysoni â dyletswyddau caffael er mwyn sichrau cysondeb.

#### Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd

#### Undebau Llafur

- Dylai’r cod gael ei gysoni er mwyn sichrau cysondeb.
- Dylid cynyddu’r sefydliadau y mae’r cod yn berthnasol iddynt lle bo’n bosibl.

## **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Dylid cysoni'r awdurdodau contractio â gweddill y dyletswyddau caffael, mae cysondeb yn well lle bo'n bosibl.
- Dylid ei ymestyn i bob awdurdod contractio a chorff sector cyhoeddus.

### Sector Preifat

- Dylid cysoni'r cod er mwyn sicrhau cysondeb, gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu heithrio.
- I'r sector adeiladu, rhaid i'r cymalau enghreifftiol fod yn orfodol i bob contract a roddir yn allanol.

### Undebau Llafur

- Dylid cysoni mabwysiadu dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol â dyletswyddau caffael.

### Trydydd Sector

- Dim ymateb o sylwedd

### Unigolion

- Dim ymateb o sylwedd

## **Cwestiwn 13**

- 5.32 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 13 yn y ddogfen ymgynghori: 'Sut gellir cyflawni gwell diwydrwydd dyladwy wrth reoli cadwyni cyflenwi ym maes adeiladu, gan gadw'r costau mor isel â phosibl, yn enwedig ar gyfer contractwyr llai mewn cadwyni cyflenwi?' Mae'n ymwneud yn



benodol â mesurau a all gynyddu diwydrwydd dyladwy gan gadw costau gweinyddol cysylltiedig yn isel o safbwynt amser ac adnoddau.

- 5.33 Roedd ymatebwyr yn cynnig nifer o ymatebion i'r her o gyflawni gwell diwydrwydd dyladwy mewn cadwyni cyflenw adeiladu gan gadw costau yn isel. Roedd y meysydd yn cynnwys cynnig ysgogiadau newydd i wella diwydrwydd dyladwy a chryfhau'r ysgogiadau presennol.

### **Mesurau newydd**

- 5.34 Roedd ymatebwyr yn awgrymu mai'r allwedd i gadw costau'n isel wrth gyflawni gwell diwydrwydd dyladwy yw trwy leihau beichiau gweinyddol cysylltiedig. Roedd awgrymiadau ar gyfer mesurau i gyflawni hyn yn cynnwys:

- Datblygu cronfa ddata ddigidol i hwyluso diwydrwydd dyladwy.
- Mesurau i alluogi sefydliad i gadw cof o gontractwyr.
- Rhannu'r arferion gorau a dogfennau templed.
- Gwethredu Themâu Canlyniadau a Mesurau yn y broses gynllunio.
- Cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar dalu prydlon er mwyn sicrhau sicrwydd llif arian ar hyd y gadwyn gyflenwi a chapasiti cysylltiedig i gydymffurfio â gofynion diwydrwydd dyladwy.

- 5.35 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd tryloywder a monitro cadwyni cyflenwi er mwyn cynyddu diwydrwydd dyladwy gan gynnwys:

- Potensial i ddefnyddio dyfais debyg i Net positive a sicrhau fod hyn ar gael i sector cyhoeddus Cymru.
- Mekanweithiau chwythu'r chwiban a gwarchodaeth.
- Yn olaf, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen posibl am reoleiddio ychwanegol, fodd bynnag, pwysleisiodd y byddai angen i reoleiddio o'r fath fod yn rhesymol a chymesur,

### **Cryfhau'r mesurau presennol**

- **Roedd ymatebwyr yn cydnabod hefyd y gellid gwella diwydrwydd dyladwy mewn modd mwy cost effeithiol trwy gryfhau mesurau sy'n bod eisoes gan gynnwys:**
  - Sicrhau gallu a chapsiti mewn adrannau caffael.
  - Hyrwyddo mwy o dryloywder mewn cadwyni cyflenwi
  - Gorfodi deddfwriaeth bresennol yn fwy trylwyr.
  
- **Yn ogystal, roedd ymatebwyr o undebau llafur yn pwysleisio'r potensial i adeiladu ar drefniadau presennol undebau llafur i hyrwyddo diwydrwydd dyladwy gan gynnwys:**
  - Hyrwyddo aelodaeth o undebau llafur.
  - Defnyddio mwy o ganfyddiadau adroddiad TISC.
  - Defnyddio mwy ar undebau llafur rhyngwladol i hyrwyddo craffu ar gadwyni cyflenwi rhyngwladol.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd

#### Sector Cyhoeddus

- Datblygu cronfa ddata ddigidol i hwyluso diwydrwydd dyladwy a chyfuno hyn ag archwilio ffisegol.
- Potensial pellach i ddefnyddio TOMs yn y broses gynllunio.
- Sicrhau gallu a chapasiti mewn adrannau caffael.

#### Sector Preifat

- Pryder y gallai rhwymedigaethau sy'n uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi roi pwysau ar fusnesau bach a chanolig a allai eu hallgáu rhag cystadlu.
- Pryderon ynghylch sicrhau cydymffurfedd mewn cadwyni cyflenwi hirach, neu gymhleth.
- Angen gwell tryloywder mewn cadwyni cyflenwi.

## Undebau Llafur

- Gall undebau llafur rhyngwladol wella lled y diwydrwydd dyladwy sydd ei angen er mwyn rheoli cadwyni cyflenwi yn effeithiol.
- Pwysigrwydd cysondeb yn y ffordd y caiff gweithwyr eu trin beth bynnag fo maint y sefydliad.
- Potensial i ddefnyddio mwy ar ganfyddiadau adroddiad TISC.

## **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Potensial i ddefnyddio dyfais debyg i Net positives a pheri ei fod ar gael i sector cyhoeddus Cymru.
- Recriwtio a hyfforddi staff caffael i wella capasiti.
- Hyrwyddo aelodaeth o undebau llafur.
- Archwiliadau ac asesiadau ychwanegol a rheoleiddio ysgafn, cymesur.
- Mwy o gymorth gan gynnwys dogfennau templed a rhannu'r arferion gorau.
- Mekanwaith a gwarchodaeth i chwythwyr chwiban ynghylch arferion anfoesegol.
- Pwysigrwydd sicrwydd ariannol llif arian ar hyd yr holl gadwyn gyflenwi.

### Sector Preifat

- Pwysigrwydd sicrwydd ariannol llif arian ar hyd yr holl gadwyn gyflenwi ac annog talu prydlon.
- Defnyddio cyfrifon banc ar gyfer prosiectau a gorfodi cadarn yn well na deddfwriaeth feichus.

## Undebau Llafur

- Yr angen am gymesuredd wedi ei orbwysleisio.

## Trydydd Sector

- Rheolaeth effeithiol o gadwyni cyflenwi
- Ni ddylid trosglwyddo'r baich i gyflenwyr trydydd sector a dylai fod yn gymesur.
- Angen cadw cof sefydliadol o gontractwyr fel y gall y baich gweinyddol leihau dros amser.

Unigolion

- Dim ymateb o sylwedd

5.36

### **Cwestiwn 14**

5.37 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 14 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y posibilrwydd o ehangu'r ddyletswydd rheoli contractau – o ran y prosesau gwneud cais, cynnal a chadw a monitro – drwy'r gadwyn gyflenwi o gymalau cymdeithasol gyfrifol i sectorau eraill y tu hwnt i adeiladu (er enghraifft, gofal cymdeithasol) yn y dyfodol?' Mae'n ymwneud yn benodol â barnau ynghylch y posibilrwydd o ehangu dyletswyddau rheoli contractau y tu hwnt i adeiladu ac unrhyw bryderon posibl y gallai ymatebwyr eu cael.

5.38 Roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi ehangu dyletswyddau rheoli contractau gyda'r rhesymau canlynol yn cael eu rhoi dros eu cefnogaeth:

- 'gellir gweithredu gwerth cymdeithas ar hyd yr holl gadwyn gyflenwi mewn Gweithiau, Nwyddau a Gwasanaethau'
- 'mae rheoli contractau yn weladwy gan ei absenoldeb yn bennaf; ond mae angen iddo ddigwydd ym mhob sector, nid adeiladu yn unig.'
- 'mae achos clir dros wneud hynny yn wyneb yr heriau a ddogfennwyd o ran gwaith teg yn y sector [gofal] a'r rhan allweddol mae comisiynu yn ei chwarae'

- 5.39 Fodd bynnag, roedd y cefnogaeth hon yn amodol ar gefnogaeth ddigonol, hyblygrwydd ac adolygiadau rheolaidd o dystiolaeth i sicrhau nad yw unrhyw ehangu yn achosi effeithiau negyddol anfwriadol ar fusnesau bach a chanolig.

### **Ehangu**

- 5.40 Roedd ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth gyffredinol i ehangu dyletswyddau mewn egwyddor ar y sail y gellid datrys nifer o bryderon ynghylch gweithredu cyn ehangu.
- 5.41 Roedd ymatebwyr o'r farn fod ehangu fel hyn yn hyrwyddo amcanion gwaith teg yn ogystal â chynyddu cysondeb rhwng gwahanol sectorau.
- 5.42 Roedd rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at sefydliadau a sectorau penodol fel blaenoriaeth ar gyfer ehangu gan gynnwys:
- Estyn, Cymwysterau Cymru a CBAC
  - Gofal Cymdeithasol
- 5.43 Roedd ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r angen am wella tryloywder cadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn achosion lle maent yn ymestyn ar draws ffiniau cenedlaethol. Roedd ymatebwyr o undebau llafur yn tynnu sylw at botensial undebau llafur, yn rhai domestig a rhyngwladol, fel cyfle i graffu'n well ar gadwyni cyflenwi.

### **Pryderon am ehangu**

- 5.44 Roedd llawer o ymatebwyr yn mynegi angen am fwy o sail dystiolaeth ar yr effaith posibl cyn ehangu'r cymalau y tu hwnt i adeiladu.
- 5.45 Roedd y ffynonellau posibl o dystiolaeth a gynigiwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:
- Tystiolaeth o'r effaith gwirioneddol ar y sector adeiladu.
  - Tystiolaeth o'r effeithiau posibl ar sectorau eraill yn wyneb heriau i sectorau a sefydliadau penodol.

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 5.46 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen i adolygu'r sail dystiolaeth yn rheolaidd ac yn awgrymu y gellid neilltuo is-grŵp o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer y dasg hon.
- 5.47 Roedd ymatebwyr yn rhagweld y gallai tystiolaeth o'r fath amlygu'r angen am ddull gwahanol gan ddibynnu ar y sector ac felly dylid ymdrin ag unrhyw estyniad i'r cymal mewn modd cymesur a hyblyg.
- 5.48 Yn ogystal, yn sgil y goblygiadau ar adnoddau sy'n gysylltiedig a mwy o lwyth gwaith cydymffurfio, roedd ymatebwyr o'r Sector Cyhoeddus yn pwysleisio'r angen i wella capasiti caffael cyn unrhyw ehangu. Roedd y mesurau a gynigiwyd i wella capasiti yn cynnwys:
- Cyflogi staff ychwanegol.
  - Darparu hyfforddiant pellach.
  - Mwy o adnoddau.
- 5.49 Tynnwyd sylw at heriau tebygol ynghylch y goblygiadau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ehangu dyletswyddau gan ymatebwyr o'r sector preifat ac o undebau llafur.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Cefnogaeth gyffredinol ond angen am asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

#### Sector Cyhoeddus

- Angen am fwy o gefnogaeth a hyfforddiant ar staff caffael.
- Angen am fonitro cadwyni cyflenwi yn well wrth iddynt ehangu'n rhyngwladol.
- Angen ehangu rheolaeth contractau y tu hwnt i sectorau penodol, ond angen hefyd mynd ati mewn modd hyblyg a phriodol.

### Sector Preifat

- Angen i dystiolaeth o blaid ehangu arfaethedig a hefyd o ganlyniadau anfwriadol posibl gael ei ddadansoddi'n fanwl.

### Undebau Llafur

- Cefnogaeth gyffredinol i ehangu
- Gellid ei adolygu'n barhaus gan un o is-grwpiau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Dylid gohirio ehangu hyd nes bydd yr effaith posibl wedi ei werthuso'n briodol.
- Pwysigrwydd hyblygrwydd a chymesuredd wrth ehangu.
- Angen buddsoddiad mewn staff caffael a hyfforddiant a goblygiadau i adnoddau.
- Angen i gadwyni cyflenwi ar draws sectorau fod yn fwy gweladwy.

#### Sector Preifat

- Cefnogaeth gyffredinol mewn egwyddor i hyrwyddo cysondeb.
- Fodd bynnag, pryder ynghylch beichiau ar awdurdodau contractio ac ymyrraeth mewn cadwyni cyflenwi nad oes a wnelont â hwy.

#### Undebau Llafur

- Pryder am oblygiadau i adnoddau.
- Dylid ymgorffori Estyn, Cymwysterau Cymru a CBAC cyn gynted at y bo modd.

#### Trydydd Sector

- Cefnogaeth gyffredinol a phwyslais ar gynnwys y sector gofal cymdeithasol.

- Dylid pwysoli cymalau budd cymdeithasol fel y canlyniad uchaf wrth werthuso tendrau.

#### Unigolion

- Angen mwy o fonitro er mwyn sicrhau bod hawliau rhieni'n cael eu cynnal.



## 6. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Canfyddiadau allweddol:

- Cefnogaeth gyffredinol i'r dull a amlinellwyd, ond gyda rhai pryderon ynghylch manylion y broses gyflawni.
- Cwestiynau ynghylch pa mor gynrychioliadol yw Cyngor arfaethedig y Bartneriaeth Gymdeithasol.
- Angen sicrhau amrywiaeth a chynrychioliaeth ar y Cyngor.
- Angen am fwy o drylowyder ynghylch y broses enwebu a dyrannu is-grwpiau.
- Teimlad fod angen cyd-drafod ehangach y tu hwnt i Gyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol.
- Ni ddylai gweithredoedd y Cyngor ddisodli trefniadau is-genedlaethol.
- Angen sicrhau a chynnal amrediad ddigonol o sgiliau a phrofiad ar y Cyngor.
- Pryder ynghylch y graddau posibl o fiwrocratiaeth a photensial o beri oedi i brosiectau allweddol.
- Potensial am ombwdsmon gwaith teg neu banel annibynnol.
- Mesurau arfaethedig.
- Adolygiad rheolaidd o effeithiau.

### Cwestiwn 15

- 6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 15 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch: a. Aelodaeth o'r Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol; b. Y broses enwebu arfaethedig?' Mae'n ymwneud yn benodol â barnau am aelodaeth arfaethedig y Cyngor a'r broses ar gyfer enwebu aelodau ohono.

### Cynrychiolaeth a mynediad

- 6.2 Roedd ymatebwyr o rai undebau llafur a'r trydydd sector yn bryderus ynghylch ffurf y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i allu i gynrychioli pob sefydliad yn eu gwahanol sectorau.
- 6.3 Roedd rhai undebau llafur cyswllt a oedd heb sedd uniongyrchol ar y Cyngor yn bryderus bod y gynrychiolaeth yn cael ei gyrru gan hierarchaeth o TUC Cymru a Llywodraeth Cymru, tra bod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cael ei yrru gan aelodau.
- 6.4 Ailadroddwyd hyn gan rai ymatebwyr o'r sector preifat a oedd eisiau mwy o dryloywder ynghylch y broses ddewis ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur. Roedd galwadau hefyd am fwy o gynrychiolaeth o'r diwydiant adeiladu ar y Cyngor.
- 6.5 Roedd undebau llafur yn bryderus ynghylch mynediad at y Cyngor a chodwyd pwyntiau hefyd ynghylch cynrychiolaeth gweithwyr nad ydynt yn aelodau undeb ac eraill y tu allan i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.
- 6.6 Mae amrediad ac amrywiaeth sefydliadau yn y trydydd sector a'r cyrff a noddir yn golygu ei bod yn her i un cynrychiolydd gyfleu eu safbwyntiau yn ddigonol.

### **Amrywiaeth a thryloywder**

- 6.7 Roedd pryderon hefyd am y graddau y byddai'r Cyngor yn sicrhau amrywiaeth a chynrychiolaeth ymysg ei aelodau, yn enwedig o safbwynt y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 6.8 Y teimlad oedd bod tryloywder yn y broses enwebu yn allweddol i'w lwyddiant. Gofynnwyd am fwy o fanylder ynghylch y broses benderfynol a statws y Cyngor, nifer yr aelodau a'r proffil sgiliau a phrofiad a ddymunir.
- 6.9 Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus am broffil sgiliau'r Cyngor ac yn awgrymu gofyniad am sgiliau craidd, wedi ei ategu gan ymgynghori gyda chynghorwyr allanol lle bo angen hynny. Y farn oedd bod sgiliau

a gwybodaeth am gaffael, rheoli contractau ac adeiladu yn allweddol i'r Cyngor a'i is-grwpiau perthnasol.

## **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Comisiynydd

- Dylai fod yn rhan o swyddogaeth y Cyngor i herio, craffu a dal Llywodraeth Cymru i gyfrif lle bo'r angen.
- Angen am gyd-drafod ehangach gyda gweithloedd nad ydynt yn aelodau undeb ac o bosibl aelodau gan gyrrff cynghori megis ACAS neu Cyngor ar Bopeth.
- Angen cynyddu dealltwriaeth o brosesau i gynyddu amrywiaeth enwebiadau a gweithredu'r prosesau hynny.

### Sector Cyhoeddus

- Sicrhau bod llais grwpiau sectorol y tu allan i'r Cyngor yn cael ei gyflwyno i gyngor arfaethedig y bartneriaeth gymdeithasol.
- Y teimlad oedd y gallai rhoi rôl ffurfiol i uwch-swyddog o Lywodraeth Cymru ei gwasanaethu gynyddu effeithiolrwydd y Cyngor.

### Sector Preifat

- Mynegwyd pryder nad yw aelodaeth y Cyngor yn adlewyrchu gweithlu Cymru, y mae'r mwyafrif llethol ohono'n gweithio yn y sector preifat. Tynnwyd sylw at ddiffyg cynrychiolaeth o'r sector adeiladu.
- Nodwyd angen am fecanwaith i alluogi busnesau eraill i fwydo i'r broses, gan gynrychioli mwy o amrywiaeth o farnau o'r sector preifat.
- Roedd rhai cynrychiolwyr cyflogwyr o blaid cyfyngu ar ehangder cynrychiolaeth y Cyngor, gan wneud y sylw: "caiff partneriaeth gymdeithasol ei weld fel deialog rhwng undebau a chyflogwyr. Nid yw'n cael ei weld yn gyffredinol fel trafodaeth ehangach sy'n ymwneud â sefydliadau eraill y gymdeithas sifil."

## Undebau Llafur

- Pryder nad yw pob undeb lafur yn aelodau o TUC Cymru a bod diffyg tryloywder yn y broses enwebu.
- Dylai aelodau'r cyngor ymrwymo i weithredu cytundebau y cytunwyd arnynt i gadw eu haelodaeth o'r Cyngor.
- Angen am fwy o fanylder ar yr adran hon o'r ddogfen.

## **Ymatebwyr yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Mwy o fewnbwn darparwyr cyngor cyflogaeth yn aelodaeth y Cyngor.
- Teimlad y dylai'r aelodaeth fod cyn lleied â phosibl er mwyn sicrhau cyfarfodydd effeithiol ond hefyd mor amrywiol a chynrychioliadol â phosibl.
- Pryder ynghylch diffyg cynrychiolaeth gweithwyr nad ydynt yn aelodau o undebau.
- Angen sicrhau bod penderfyniadau ar aelodaeth yn cael eu gwneud yn dryloyw gan fwrdd ac nad oes cymhellion gwleidyddol.
- Cefnogaeth i dymhorau aelodaeth penodol er mwyn gwella amrywiaeth cynrychiolaeth undebau llafur ymysg aelodau'r Cyngor.
- Teimlad y dylid cynnwys y rheini sydd â phrofiad caffael gweithredol wrth drafod materion caffael.

### Sector Preifat

- Mwy o dryloywder ynghylch y sail resymegol dros benderfynu ar niferoedd aelodaeth a sefydliadau ar draws sectorau.
- Angen i'r aelodaeth fod yn fawr ac yn ddaearyddol amrywiol.
- Dylai'r Cyngor gael mwy o gynrychiolaeth o'r diwydiant adeiladu gan fod penderfyniadau'r Cyngor yn debygol o effeithio mwy arnynt.

## Undebau Llafur

- TUC Cymru ddylai fod y corff enwebu ar gyfer aelodaeth undebau llafur o'r Cyngor ac nid y Prif Weinidog, er mwyn osgoi ymyrraeth bosibl.
- Pryder y gallai'r Cyngor danseilio'r strwythurau trafod presennol.

## Trydydd Sector

- Angen am fwy o amrywiaeth aelodaeth gyda sylw i nodweddion gwarchoddedig a sectorau ac am fwy o arbenigedd ar gydraddoldeb ar y Cyngor.
- Pryder ynghylch cynrychiolaeth o'r gweithlu nad ydynt yn aelodau undeb.
- Dylai fod mwy o eglurder ynghylch gofynion sgiliau a phrofiad ar gyfer aelodaeth o'r Cyngor.

## Unigolion

- Dylai aelodaeth gynnwys sefydliadau teuluol er mwyn sicrhau bod safbwyntiau rhieni'n cael eu cynrychioli'n ddigonol.

## **Cwestiwn 16**

6.10 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 16 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y cynigion ynghylch sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i weithrediadau a'i is-grwpiau?' Mae'n ymwneud yn benodol â barnau ar sefydlu'r Cyngor a'i weithrediadau, gan gynnwys materion aelodaeth, cynrychiolaeth a chyd-drafod â'r gymuned ehangach.

6.11 Y prif sylwadau ar weithrediad yr is-grwpiau oedd:

- Yr angen am eglurder ynghylch cylch gwaith a rheoleidd-dra unrhyw broses adolygu.

- Potensial ar gyfer cysylltu is-grwpiau ag asiantaethau allanol, megis ACAS neu gomisiynwyr, er bod cydnabyddiaeth fod oblygiadau i hyn o ran adnoddau.

## **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Comisiynydd

- Cefnogaeth i wahodd rhai nad ydynt yn aelodau i gyfarfodydd perthnasol, dylai hyn gynnwys aelod yn cynrychioli pobl o dan anfantais.
- Cynnig i greu is-grŵp cydraddoldeb a hawliau dynol o'r Cyngor.
- Angen mwy o gyd-drafod gyda'r gweithlu nad ydynt yn aelodau undeb.

### Sector Cyhoeddus

- Angen sicrhau cyd-drafod â gwahanol randdeiliaid a sectorau yn y broses benderfynu.
- Pwyslais ar bwysigrwydd is-grwpiau i weithrediadau'r Cyngor.

### Sector Preifat

- Angen am fwy o eglurder ynghylch disgwyliad Llywodraeth Cymru i bartneriaid ddatblygu partneriaethau cymdeithasol y tu allan i strwythurau'r Cyngor.
- Pryder y gallai'r Cyngor, gydag aelodaeth gyfyng o'r sector preifat, gael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i hawlio bod ganddi gefnogaeth y sector preifat i bolisiâu.
- Angen i'r Cyngor gyd-drafod yn ehangach gyda'r sector preifat, efallai trwy sianelau ffurfiol yn cael eu datblygu rhang aelodau sector preifat y Cyngor a'r gymuned fusnes ehangach.
- Angen i is-grwpiau ar gyfer sectorau twf yn y dyfodol, ee Fintech.

### Undebau Llafur

- Angen mwy o eglurder ynghylch cyfansoddiad aelodaeth y Cyngor a pherthynas strwythurau'r Cyngor â strwythurau presennol ee Fforwm Partneriaeth Cymru y Gwasanaeth Iechyd
- Angen am fwy o eglurder ynghylch cyfleoedd i rannu gwybodaeth o fewn y Cyngor
- Angen am fwy o amrywiaeth o nodweddion personol ymhlith yr holl bartneriaid cymdeithasol.
- Dylid cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur sydd ag arbenigedd caffael yn yr is-grŵp caffael.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Angen eglurder pellach ar y cylch gwaith arfaethedig ac i'r rhain fod yn destun adolygu rheolaidd.
- Pwysigrwydd i aelodau gael amrywiaeth o arbenigedd a'u bod yn cael cyfleoedd i ddysgu.
- Dylai'r cylch penodi weithredu fel bod tymhorau aelodau'n gorgyffwrdd er mwyn sicrhau parhad a chynnal gwybodaeth ddigonol o brosesau'r Cyngor ymhlith partneriaid.
- Angen mwy o amrywiaeth nodweddion personol ymhlith yr holl bartneriaid cymdeithasol.
- Pryder y gallai arbenigedd yr is-grŵp caffael gael ei ddarostwng gan benderfyniadau ar lefel y Cyngor.
- Angen cynnwys y sector tai yn yr is-grŵp caffael.
- Angen mwy o eglurder ar sut fydd y Cyngor yn gweithredu o fewn y strwythurau presennol.

#### Sector Preifat

- Pwysigrwydd sicrhau arbenigedd mewn caffael, rheoli contractau ac adeiladu yn yr is-grŵp caffael.

#### Undebau Llafur

- Angen mecanwaith i ddatrys anghytundebau rhwng sectorau a'i gilydd ymhlith aelodau'r Cyngor.
- Mae angen hyblygrwydd ac arbenigedd yn aelodaeth is-grwpiau.

#### Trydydd Sector

- Angen cynnwys y trydydd sector yn helaethach er mwyn cynrychioli pobl o dan anfantais.
- Dylid sefydlu sianelau ychwanegol i gynrychioli safbwyntiau a phryderon rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor ac i sicrhau tryloywder cyhoeddus cyfarfodydd y Cyngor.
- Dylid annog aelodau'r Cyngor i ymuno â fframweithiau cydraddoldeb.
- Angen am fwy o eglurder ar brosesau sefydlu is-grwpiau.

#### Unigolion

- Pwysigrwydd cael cynrychiolaeth o sefydliadau teuluol.

### **Cwestiwn 17**

- 6.12 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 17 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y system partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran arwain y system a'r cysylltiadau rhwng y gwahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol?' Mae'n ymwneud yn benodol â safbwyntiau ar y system partneriaeth gymdeithasol arfaethedig, y Cyngor a'r rhyngweithio rhwng gwahanol lefelau o'r system partneriaeth gymdeithasol.
- 6.13 Galwyd hefyd am fwy o eglurder ynghylch gweithrediad y System Partneriaeth Gymdeithasol, yng nghyd-destun cydnawsedd â'r trefniadau presennol er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol.



- 6.14 Roedd teimlad hefyd y dylid osgoi biwrocratiaeth ormodol a gofynion llym o ran adrodd.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Dylai sefydliadau sector cyhoeddus ac iddynt hanes hirach o bartneriaethau cymdeithasol chwarae rhan fwy blaenllaw.
- Mae angen osgoi gormod o fiwrocratiaeth a chydabod cymhlethdod mwy prosesau y tu hwnt i gytundebau ffurfiol.

#### Sector Preifat

- Bydd yn bwysig cynnwys proses uwchgyfeirio gymesur a fydd yn ystyried y potensial am gynnydd mewn llwyth gwaith.
- Bydd angen i'r system gynnal ymwybyddiaeth o newidiadau yn sefydliadau cyfochrog y Deyrnas Unedig.
- Er bod y sector preifat i raddau helaeth y tu allan i gwmpas y trefniadau hyn, dylai fod anogaeth i fusnesau yn fwy cyffredinol gyflwyno neu wella trefniadau partneriaeth gymdeithasol.

#### Undebau Llafur

- Pryder y gallai hyrwyddo trefniadau partneriaethau cymdeithasol yn genedlaethol danseilio trefniadau mwy lleol neu rai ar gyfer sectorau penodol.
- Mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y bydd y Cyngor yn rhyngweithio â strwythurau presennol yn y sector iechyd.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Mae angen sicrhau nad yw biwrocratiaeth a gofynion adrodd yn dod yn faich gormodol.

- Gan fod cymaint yn cael eu cyflogi yn y sector iechyd, bydd angen cynllunio bod y trefniadau'n gydnaws â fframweithiau presennol y sector iechyd.
- Mae'n bwysig nad yw trefniadau'r Cyngor yn tanseilio cylch gwaith busnesau i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

#### Sector Preifat

- Dylai'r trefniant teirochrog fod ar sail gyfartal rhwng partneriaid cymdeithasol.

#### Undebau Llafur

- Pryder y gallai hyrwyddo trefniadau partneriaethau cymdeithasol yn genedlaethol danseisio trefniadau mwy lleol neu rai i sectorau penodol.

#### Trydydd Sector

- Cefnogaeth i'r ymdriniaeth haenog o strwythur partneriaeth gymdeithasol a chydnabod bod rhai elfennau o weithio mewn partneriaeth yn cael eu cyflawni'n well ar lefel leol.
- Mwy o eglurder ar fecanwaith i uwchgyfeirio pryderon lleol.
- Pryder bod aelodaeth y Cyngor yn rhy fach, y fiwrocratiaeth yn ormodol a chyfarfodydd yn rhy anaml i fod yn effeithiol.

#### Unigolion

- Pwysigrwydd cynrychioli sefydliadau teuluol.

## 7. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd

Canfyddiadau allweddol:

Mecanwaith gwelliant a chydymffurfedd

- Dylai'r pwyslais fod ar ddarparu cymorth i gyflawni canlyniadau, gyda mesurau cydymffurfio'n cael eu defnyddio fel y dewis olaf
- Defnyddio targedau, safonau ac enghreifftiau o'r arferion gorau i annog cydymffurfedd
- Mwyafrif yn erbyn mecanwaith dyfarnu ar lefel genedlaethol Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol
- I'r lleiafrif a oedd yn cefnogi cydymffurfedd, dylai'r pwerau fod yn gymesur, annibynnol ac yn destun craffu

Mecanwaith dyfarnu

- Cefnogaeth gyffredinol i fecanwaith dyfarnu annibynnol
- Ni all Bwrdd y Bartneriaeth Gymdeithasol ddyfarnu, gan y byddai hynny'n achosi gwrthdaro
- Potensial am ombwdsmon gwaith teg neu banel annibynnol?
- Mesurau arfaethedig
- Adolygiad rheolaidd o effeithiau.

### Cwestiwn 18

- 7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 18 yn y ddogfen ymgynghori: 'O ran y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a ddylid datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio i sicrhau bod yr holl gyrff yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyfrannu ar y cyd at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?' Mae'n ymwneud yn benodol â safbwyntiau ynghylch a ellid cyflwyno mecanwaith gwelliant a chydymffurfedd a sut y gellid ei gweithredu'n effeithiol.
- 7.2 Roedd ar fwyafrif sylweddol o ymatebwyr eisiau pwysleisio darparu cefnogaeth i helpu sefydliadau i wella, gyda mesurau cydymffurfio'n cael eu defnyddio pan fyddai popeth arall wedi methu. Fodd bynnag,

cydnabuwyd bod lleiafrif o gyflogwyr na fydd efallai'n ymateb i anogaeth ac y gall rhai cosbau fod yn angenrheidiol.

### 7.3 Roedd yr awgrymiadau ar gyfer mecanweithiau cefnogi yn cynnwys

- Sefydliadau hyfforddi i ddeall sut mae cysylltiadau diwydiannol da yn gweithio gyda chysylltiadau ag adnoddau ynghylch arferion rheoli.
- Defnyddio modelau gwelliant parhaus megis Kaizen. Creu cymuned o gyflogwyr da a'u defnyddio fel asiantau gwelliant.
- Darparu cymorth busnes priodol i weithredwyr lle bynnag bo'n bosibl, a sicrhau bod gofynion deddfwriaethol yn caniatáu iddynt symud ymlaen tuag at gyflawni'r amodau o fewn contract yn hytrach na'u hallgáu.
- Cyfeirio at fodel Gofal Cymdeithasol Cymru, lle mae annog a gorfodi yn rhan o gontiniwm, gyda fframwaith gwella a hyfforddi a gorfodi pan fydd popeth arall wedi methu. Roedd awgrym y gellid adolygu hyn a modelau arall presennol fel y Safon Iechyd Corfforaethol i ddysgu oddi wrth arferion presennol.

### 7.4 O ran gorfodi:

- Angen eglurder ynghylch beth sy'n cael ei orfodi a phwy sy'n ei orfodi. Hefyd, bod yn glir ynghylch a yw'n cyfeirio at gymhwysedd a gallu absoliwt neu daith gwelliant.
- Trafod y potensial o weithredu mesurau arbennig i gosbi cyflogwyr gwael.
- Yr angen am ddata o ansawdd da i fonitro a gwerthuso cydymffurfedd.
- Dylai pwerau fod yn gymesur, annibynnol, ac yn destun craffu.

## **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

Comisiynydd

- Dylai fod mecanwaith gwella a chydymffurfio i helpu sicrhau bod y dyletswyddau'n cael eu gwneud ac i gyflawni canlyniadau. Gall fod y dulliau presennol o reoleiddio dyletswyddau yng Nghymru fod yn ddefnyddio wrth ddatblygu mecanweithiau cydymffurfio.

#### Sector Cyhoeddus

- Dylai'r pwyslais fod ar gefnogi, hyrwyddo'r arferion gorau ac ar fframwaith ar gyfer cydnabod yr arferion gorau, ee y Safon Iechyd Corfforaethol
- Dylid gwahaniaethu rhwng sefydliadau sy'n ymdrechu i gydymffurfio a'r rheini sy'n diystyru'n fwriadol yr angen i gydymffurfio.
- Dylid osgoi mesurau cosbi ariannol fel dirwyon.
- Bydd angen i'r broses ystyried gwahanol heriau a manau cychwyn i wahanol sefydliadau.

#### Sector Preifat

- Ni ddylid cynnwys cyrff cyflogwyr sy'n cynrychioli aelodau mewn unrhyw strwythurau cydymffurfio, gan y gallai hyn olygu gwrthdrawiad buddiannau.

#### Undebau Llafur

- Cefnogi pwyslais ar ddarparu hyfforddiant a chymorth yn hytrach na chosbi, a gwelliant gwirfoddol yn hytrach na gorfodaeth i gydymffurfio.
- Bydd angen ystyried heriau a manau cychwyn gwahanol i wahanol sefydliadau.
- Dylai unrhyw fecanwaith cydymffurfio fod yn annibynnol, yn meddu ar bwerau cyfreithiol digonol, i'w ddefnyddio dim ond pan fo popeth arall wedi methu, ac yn destun proses apelio.

#### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

## Sector Cyhoeddus

- Dylai unrhyw fecanwaith fod wedi ei hintegreiddio gymaint â phosibl â mecanweithiau sy'n bod eisoes, megis y rheini sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol neu ddyletswyddau cydraddoldeb.
- Angen i'r mesurau a gymerir fod yn gymesur.
- Dylai mecanweithiau cydymffurfio gael eu hintegreiddio â mecanweithiau sy'n bod eisoes lle bo'n bosibl, ee y rheini sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rhai meysydd yn fwy cydnaws â datblygu targedau cydymffurfio.

## Sector Preifat

- Galw am reoleiddiwr annibynnol i oruchwylio cydymffurfedd a gweithredu caffael.
- Dylid anghymhwyo cwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio rhag derbyn contractau sector cyhoeddus.

## Undebau Llafur

- Mae angen sefydlu swyddfa annibynnol, sy'n gyfrifol am sbarduno gwelliant mewn cyrff cyhoeddus penodol sy'n ddarostyngedig i'r amrywiol ddyletswyddau yn y Bil a rheoli mecanwaith cydymffurfio.
- Mae cyfle i sefydlu ombwdsmon partneriaeth gymdeithasol gyda chylch gwaith, pwerau cyfreithiol ac adnoddau addas.

## Trydydd Sector

- Mwy o gefnogaeth i fecanwaith cydymffurfio ond canolbwyntio ar ganlyniadau a chydabod cyd-destun y sefydliad.
- Gofynion adrodd a chraffu yn y Senedd fel arf meddal i sicrhau cydymffurfedd yn well na mesurau cosbi ariannol.

- Ni ddylai'r monitro chwaith fod yn rhy drwm na haearnaidd a dylai fod hyblygrwydd yn yr ymdriniaeth o ran gwahanol sectorau ac amodau lleol.

## **Cwestiwn 19**

- 7.5 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 19 yn y ddogfen ymgynghori: 'A ddylid sefydlu mecanwaith dyfarnu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar lefel genedlaethol er mwyn uwchgyfeirio unrhyw achosion o fethu cytuno ar lefel sectorau? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?' Mae'n ymwneud yn benodol â barnau ar y potensial i fecanwaith dyfarnu ganiatáu uwchgyfeirio anghydfodau ac awgrymiadau posibl am ffyrdd effeithiol o weithredu hyn.
- 7.6 Roedd cefnogaeth fwyafrifol i fecanwaith dyfarnu ar gyfer achosion o fethu cytuno ar lefel sector. Fodd bynnag, roedd mwy o anghytuno ynglŷn ag ym mha ffurf y dylai hyn fod.
- 7.7 Dadleuwyd na all y Cyngor wneud y dyfarnu gan y byddai'n golygu gwrthdrawiad buddiannau. Felly mae angen am sefydliad neu banel annibynnol sy'n gallu ymchwilio, gofyn am wybodaeth a rheoli ar y canlyniad. Dylai hyn adrodd i'r Senedd ac i Weinidogion Cymru.

## **Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Diffyg cefnogaeth gyffredinol i fecanwaith dyfarnu ar lefel y Cyngor, gan y gallai effeithio ar waith partneriaethau cymdeithasol a'r gallu i gyrraedd cytundeb heb ddyfarniad.

### Sector Preifat

- Does dim mandad gan aelod-sefydliadau i orfodi cydymffurfio na bod yn rhan o fecanwaith o'r fath.

#### Undebau Llafur

- Mwyafrif yn erbyn mecanwaith dyfarnu ar lefel y Cyngor gan y byddai'r Cyngor yn brin o unrhyw fandad i weithredu mecanwaith o'r fath.
- Roedd cytundeb gyda'r defnydd o gyfryngu annibynnol fel dewis arall, er enghraifft trwy ACAS.
- Mae'r gefnogaeth lleiafrifol yn cyfeirio at bryderon gydag allgyrchu grym o Lywodraeth Cymru yn ogystal ag angen am gynrychiolaeth gyfartal a chyd-drafod ar fecanwaith dyfarnu.

### **Rhaid nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Mwyafrif yn erbyn, gan mai'r teimlad oedd ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn ychwanegu gwerth at y trefniadau presennol.
- Roedd lleiafrif yn gweld gwerth mewn cael mecanwaith dyfarnu cyfyngedig, annibynnol, ar gyfer datrys anghydfodau.
- Fodd bynnag, codwyd pryderon y gallai gyfyngu ar effeithiolrwydd partneriaethau cymdeithasol ac ymreolaeth partneriaid cymdeithasool.

#### Sector Preifat

- Cefnogaeth fwyafrifol i reoleiddiwr annibynnol i ddyfarnu ar anghydfodau.

#### Undebau Llafur

- Cefnogaeth i fecanwaith annibynnol, cynrychioliadol i ddatrys anghydfodau.
- Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch diffyg cefnogaeth i ildio grym bargeinio i drydydd parti.



- Defnyddio cyfryngu fel dewis arall trwy ACAS.

#### Trydydd Sector

- Potensial i fecanwaith dynnu sylw at arferion da ac arferion gwael.
- Barn yn erbyn rôl y Cyngor i ddyfarnu ar faterion yn wyneb diffyg cynrychiolaeth, byddai angen i'r dyfarnu fod yn annibynnol.
- Angen cynnwys Llywodraeth Cymru, WAO, Undebau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, o bosibl gyda chomisiynydd fel eiriolwr/canolbwynt. Angen i hyn fod yn seiliedig ar broses apelio.

#### Unigolion

- Sut gellir gwneud gwaith cyflogedig yn fwy cydnaws â bywyd teuluol?

### **Cwestiwn 20**

- 7.8 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 20 yn y ddogfen ymgynghori: 'Beth yw'ch barn ar y mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig yn y Bil drafft ynglŷn â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol? Pa fesurau eraill y byddai modd eu defnyddio? A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut gallai gwahanol fesurau gorfodi a chydymffurfio weithio'n ymarferol?' Mae'n ymwneud yn benodol â pha mor dderbyniol yw'r mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig a gynhwysir yn y Bil ac a ellid cynnig mesurau ychwanegol i helpu'r Bil wella cyfraddau cydymffurfio.
- 7.9 Ymysg ymatebwyr derbynnir yn gyffredinol ei bod yn bwysig i gorff rheoleiddio cydnabyddedig gael ei nodi yn y Bil, a all gyflawni swyddogaeth rheoleiddiwr, gan gymryd camau gorfodi lle bo angen.
- 7.10 Y teimlad cyffredinol, fodd bynnag, yw y dylai unrhyw fesurau fod yn gymesur a rhesymol.

- 7.11 Roedd rhai pryderon ynghylch agweddau rheoli contractau'r cynigion a'r adnoddau a fyddai'n ofynnol ar gyfer hyn.
- 7.12 Teimlai ymatebwyr ei bod yn bwysig caniatáu ar gyfer mynediad at gyfleoedd unioni lle mae contractau'n methu, neu'n cael eu terfynu.
- 7.13 Barn ymatebwyr oedd bod monitro yn allweddol. Roedd awgrymiadau'n cynnwys archwilio ffyrdd o gydweithio gyda gwasanaethau ymgynghori presennol ac eraill i fonitro cyflenwyr a chontractau. Teimlaid eraill y dylai'r adroddiadau blynyddol gael eu dadansoddi gan Archwilio Cymru.

### **Aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Angen am gorff rheoleiddio i fonitro a gorfodi cydymffurfedd.
- Angen am fwy o eglurder ar ddyletswyddau caffael i gyrrff sector cyhoeddus, gan gadw dyletswyddau presennol PSED mewn cof a'r angen i gysoni â'r rhain.

#### Sector Cyhoeddus

- Ni ddylai cydymffurfio fod yn ormod o faich, ond yn ddigon trylwyr i fod yn ystyrllon.
- Codwyd pryderon ynghylch cysondeb y bil partneriaeth gymdeithasol â chymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a chyfraith elusennau.

#### Sector Preifat

- Ni ddylai cydymffurfio osod gormod o faith ac ni ddylai lesteirio gallu busnesau bach a chanolig i gystadlu mewn unrhyw broses gaffael.

#### Undebau Llafur

- Cefnogaeth i gyflwyno model archwilio sy'n parchu egwyddorion gwaith teg law yn llaw â'r ddeddfwriaeth hon, i atgyfnerthu cydymffurfedd â'r dyletswyddau caffael.
- Cytundeb y bydd tryloywder a chraffu yn gwella cydymffurfedd.
- Croeso i'r cynnig i gyflwyno rhwymedigaethau rheoli contractau – mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau canlyniadau gwaith tecach.
- Cefnogaeth i fecanweithiau gorfodi a dirwyon law yn llaw â chefnogaeth i'r arferion gorau.
- Awydd am fwy o fanylder – er enghraifft a oes bwriad i'r ddyletswydd adeiladu gyflwyno medal prif contractwr fel yr un sy'n bod ar gyfer rheoliadau iechyd a diogelwch?
- Cefnogaeth i restr o contractwyr gwaharddedig a reolir yn ganolog ar gyfer y rheini sy'n dangos diffyg cydymffurfedd.

## **Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Cydnabyddiaeth o bwysigrwydd mecanwaith cydymffurfio a chraffu ar adroddiadau.
- Fodd bynnag, ni ddylai cydymffurfio olygu baich ormodol a chaiff ysgogiadau eraill eu hystyried gan rai i fod yn fwy effeithiol, gan gynnwys rhannu enghreifftiau ymarferol, a rhoi anogaeth trwy hyfforddiant a chymorth.
- Dylid darparu cymorth i leihau baich gweinyddol, ee cronfa ddata ganolog o contractwyr sy'n cydymffurfio.
- Angen am drylowyder a chysondeb ynghylch seiliau dros ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio posibl.
- Angen ffrâm amser byrrach ar gyfer adrodd fel y gellir darganfod diffyg cydymffurfio a'i ddatrys yn gynharach yn y contract.

### Sector Preifat

- Dylai gofynion caffael fod yn llymach er mwyn galluogi cysondeb rhwng contractau a'i gilydd.
- Angen gwella systemau cydymffurfio presennol.
- Dylid canolbwyntio mwy ar fonitro a gorfodi buddion cymunedol ym mhrosesau caffael y sector cyhoeddus.

#### Undebau Llafur

- Ffurfio defnyddio cymhellion yn hytrach na mesurau cosbedigol ar gyfer cydymffurfio.
- Cefnogaeth i'r ddyletswydd rheoli contractau.

#### Trydydd Sector

- Mwy o bwyslais ar ffurfiau llai cosbedigol o annog cydymffurfio, megis mesurau cefnogi a chraffu cyhoeddus.
- Angen am fecanwaith clir i unigolion godi pryderon ynghylch arferion neu gaffael presennol.
- Cred y dylai'r bwriad polisi o sefydlu gwasanaeth adolygu gael ei gynnwys yn y Bil ei hun.

#### Unigolion

- Angen am orfodaeth i gasglu data amrywiaeth.

## 8. Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cydraddoldeb ac Effeithiau

Canfyddiadau allweddol:

- Nid yw asesiad o effaith y Bil drafft ar gydraddoldeb wedi'i gyhoeddi eto
- Dylid cynnwys diffiniad penodol o nodweddion gwarchoddedig yn y Bil
- Angen eglurder pellach a dadansoddiad o gostau a sut y gallant amrywio yn ôl sector.
- Effeithiau cadarnhaol posibl ar y Gymraeg a mwy o wasgaru cyfleoedd ar hyn cadwyni cyflenwi lleol.
- Fodd bynnag, heriau posibl i fusnesau bach a chanolig a busnesau sy'n ddibynnol ar gyflenwyr o Loegr.
- Potensial i wella effeithiau trwy ganolbwyntio ar drefniadau anffurfiol a chymhellion i annog cyfranogiad, yn ogystal ag adolygiadau rheolaidd o effeithiau.

### Cwestiwn 21

- 8.1 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 21 yn y ddogfen ymgynghori: 'A ydych yn cytuno â'r effeithiau a amlinellir yn yr adran hon? A oes goblygiadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol y dylid eu hystyried?' Mae'n ymdrin yn benodol ag effeithiau posibl y Bil ac effeithiau anfwriadol posibl ar grwpiau penodol.
- 8.2 Roedd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn gallu, neu'n anfodlon, dyfalu ynghylch effeithiau posibl y Bil cyn cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 8.3 Roedd y lleiafrif o ymatebwyr a wnaeth drafod effeithiau posibl yn tynnu sylw at effaith posibl y Bil gan ddisgwyl yr effeithiau cadarnhaol canlynol o ganlyniad i'r Bil:
- 'cam cadarnhaol ymlaen wrth gyflawni agenda cyffredinol cydraddoldeb'

- 'bydd yn arwain at effaith cadarnhaol ar amrywiol nodweddion gwarchoddedig trwy hyrwyddo gwaith teg'.

8.4 Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch nifer o ganlyniadau anfwriadol y gallai'r Bil ei achosi:

- 'gallai cwmnïau llai gael eu rhoi o dan anfantais yn sgil gwaith ychwanegol, di-dâl, i gwblhau gwiriadau a gwaith papur'
- 'nid yw pobl nad ydynt yn wyn yn cael eu cynrychioli'n effeithiol ar y Cyngor'
- 'diffyg anghymesur o ran llais i'r sector ar y Cyngor' i sefydliadau trydydd sector sy'n cynrychioli grwpiau ehangach yn y gymuned'
- 'goblygiadau i'r rheini nad ydynt mewn cyflogaeth neu mewn sectorau ac iddynt amodau gwaelach ar hyn o bryd'
- 'llawer o gwmnïau sector preifat yn cwblhau asesiadau effaith er mwyn sicrhau cydymffurfedd 'blwch ticio'.'

8.5 Roedd amryw o ymatebwyr yn cynnig strategaethau y gellid eu gweithredu i fanteisio i'r eithaf ar effeithiau cadarnhaol posibl a lleihau effeithiau negyddol:

- Sicrhau amrywiaeth cynrychiolaeth ar y Cyngor
- Adolygu effaith y Cyngor yn rheolaidd
- Mwy o gysondeb â pholisi presennol
- Mwy o fanylder ar nodweddion gwarchoddedig
- Canllawiau cadarn, ymarferol
- Mwy o ganolbwyntio ar yr amgylchedd

### **Angen mwy o wybodaeth**

8.6 Roedd llawer o ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am fwy o dystiolaeth i wneud dyfarniad gwybodus ar effeithiau anfwriadol posibl gan gynnwys:

- Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Effaith Rheoleiddiol wedi eu cyhoeddi'n llawn
- Bydd gwell dealltwriaeth o effeithiau ar ôl gweithredu

- Monitro ac adolygu effeithiau yn rheolaidd.

### **Effeithiau cadarnhaol**

- 8.7 Roedd rhai ymatebwyr yn tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir o ganlyniad i'r Bil gan gynnwys:
- Hyrwyddo gwaith teg
  - Cadw mwy o hylifedd yn economi Cymru
  - Lleihau amddifadedd economaidd-gymdeithasol
  - Lleihau anghydraddoldeb ac allgáu
  - Roedd ymatebwyr yn nodi bod y pandemig Covid-19 wedi gwaethygu heriau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru ac felly wedi cryfhau'r achos dros geisio cyflawni'r nodau hyn.
- 8.8 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn sylweddoli hefyd y byddai buddion cysylltiedig y Bil wedi eu cyfyngu i weithwyr cyflogedig a oedd o fewn ei gwmpas.

### **Effeithiau negyddol**

- 8.9 Yn sgil cwmpas cyfyngedig y Bil roedd ymatebwyr yn crybwyll yr effaith negyddol posibl ar y rheini y tu hwnt i gwmpas y Bil gan gynnwys:
- Potensial i'r rheini y tu hwnt i'r Bil gael eu hymylu
  - Cynydd posibl mewn anghydraddoldeb rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat
- 8.10 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn codi pryderon penodol ynghylch effeithiau negyddol posibl ar fusnesau bach a chanolig gan gynnwys:
- Lleihad mewn capasiti busnesau bach a chanolig yn sgil y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chydymffurfio.
  - Lleihad yng nghystadleurwydd busnesau bach a chanolig yn y broses gaffael.

- 8.11 Roedd ymatebwyr o'r Trydydd Sector yn codi pryderon penodol ynghylch y diffyg amrywiaeth ar y Cyngor a goblygiadau negyddol posibl o ganlyniad i'r diffyg cynrychiolaeth a'r diffyg cyd-drafod gyda grwpiau ehangach gan gynnwys:
- Y rheini â nodweddion gwarchoddedig, gyda phwyslais penodol ar yr angen am gynnwys mwy o leiafrifoedd ethnig.
  - Sefydliadau Trydydd Sector sy'n cynrychioli grwpiau dan anfantais yn y gymuned a'r Trydydd Sector yn ehangach.

### **Gwella effeithiau**

- 8.12 Roedd ymatebwyr yn nodi nifer o fesurau y gellid eu cymryd er mwyn manteisio i'r eithaf ar effeithiau cadarnhaol y Bil a lleihau effeithiau negyddol.
- 8.13 Un maes a nodwyd gan ymatebwyr oedd yr angen am fwy o weithredu'r ddeddfwriaeth bresennol a mwy o gysondeb â hi gan gynnwys:
- Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru (2010)
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
  - Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (2021)
- 8.14 Yn ogystal â chysoni polisi, awgrymwyd meysydd pellach gan ymatebwyr i wella effeithiau disgwylidig y Bil gan gynnwys:
- Ehangu cwmpas
  - Adrodd a gwerthuso effeithiau yn rheolaidd
  - Mwy o amrywiaeth ar y Cyngor
  - Diffinio nodweddion gwarchoddedig yn y Bil
  - Datblygu ymyraethau wedi eu targedu ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig
  - Gwella argymhellion yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywiol
  - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chanllawiau statudol cadarn
  - Mwy o ganolbwyntio ar gynaliadwyedd economaidd



## **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Comisiynydd

- Angen am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### Sector Cyhoeddus

- Disgwyl effaith cadarnhaol
- Fodd bynnag, angen am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a monitro effeithiau'n rheolaidd

### Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd.

### Undebau Llafur

- Disgwyl effaith cadarnhaol, fodd bynnag ellid ehangu'r cwmpas.
- Angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Disgwyl effeithiau cadarnhaol i'r rheini a gynhwysir, fodd bynnag risg i'r rheini sydd y tu hwnt i gwmpas y Bil gael eu hymylu ymhellach.
- Angen am Asesiad o'r Effaith ar gGdraddoldeb, ac adrodd rheolaidd, ystyrlon, i asesu effeithiau.
- Angen ystyried gweithredu dyletswyddau presennol yn well ee dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

### Sector Preifat

- Effeithiau negyddol posibl ar fusnesau bach a chanolig yn sgil adnoddau a hylifedd cyfyngedig.

### Undebau Llafur

- Dim ymateb o sylwedd.

#### Trydydd Sector

- Angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
- Angen mwy o amrywiaeth ar y Cyngor.

#### Unigolion

- Angen ystyried anghenion rhieni, plant a theuluoedd.

### **Cwestiwn 22**

- 8.15 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 22 yn y ddogfen ymgynghori: 'O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ydych yn cytuno â'r asesiad o'r costau a'r buddion tebygol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil drafft? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa elfen(nau) penodol rydych yn anghytuno â nhw a pham.' Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r dadansoddiad cost a budd a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac a yw'r ymatebwyr yn cytuno â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol neu a fyddent yn hoffi cyfeirio at costau a buddion ychwanegol i'w cynnwys.
- 8.16 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r costau a'r buddion a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 8.17 Fodd bynnag, dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn gallu gwneud dyfarniad gwybodaeth ar y costau a'r buddion a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol oherwydd diffyg tystiolaeth o effeithiau posibl.
- 8.18 Roedd rhai ymatebwyr yn gallu tynnu sylw at fuddion a chostau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan gynnwys:
- Gweithredu mwy o gamau cyn deddfu.

- Gweithredu dyletswyddau a pholisïau newydd sy'n debygol o gael y mwyaf o effaith ar y partneriaid cymdeithasol.
- Dyletswyddau ychwanegol o ran caffael i brifysgolion a allai gynyddu costau gweinyddol neu effeithio ar brisiau contractau.
- Costau sy'n gysylltiedig â chynyddu capasiti'r sector caffael.

### **Diffyg gwybodaeth**

8.19 Roedd rhai ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch diffyg gwybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn y Bil er mwyn gwerthuso effeithiau posibl. Roedd yr hyn y tynnwyd sylw ato gan ymatebwyr fel gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer gwerthuso effeithiau posibl yn cynnwys:

- Cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Effaith Rheoleiddiol yn llawn.
- Mwy o fanylder ar gostau a buddion cysylltiedig.
- Canllawiau ar sut i fesur buddion cymdeithasol posibl.

### **Dull yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

8.20 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw hefyd at ffyrdd gwahanol y gellid ymdrin â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn sicrhau eglurder a defnyddioldeb gan gynnwys:

- Gwreiddio gwerthusiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o fewn egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Defnyddio dull rhyngblethedd.
- Dadansoddi costau a buddion cysylltiedig.

### **Buddion**

8.21 Roedd un ymatebydd yn dweud mai un o fuddion posibl y Bil fyddai'r gallu i gyflawni'r polisi sy'n bod eisoes gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Costau**

- 8.22 Defnyddiodd ymatebwyr y cwestiwn hwn i dynnu sylw at nifer o gostau y disgwylir iddynt gael eu cynhyrchu o ganlyniad i'r Bil gan gynnwys:
- Gweithredu dyletswyddau a pholisïau newydd.
  - Dyletswyddau ychwanegol o safbwynt caffael i brifysgolion a allai gynyddu costau gweinyddol neu effeithio ar brisiau contractau
  - Costau sy'n gysylltiedig â chynyddu capasiti'r sector caffael.
- 8.23 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn nodi'r dosbarthiad anwastad tebygol o gostau sy'n gysylltiedig â'r bil, gan nodi costau penodol sy'n gysylltiedig â'r grwpiau canlynol:
- Partneriaid Cymdeithasol
  - Prifysgolion
  - Adrannau caffael.
- 8.24 Fodd bynnag, roedd un ymatebydd yn pwysleisio'r angen i bwysu a mesur y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil o gymharu â'r costau gwrthffeithiol sy'n gysylltiedig â chaffael cymdeithasol anghyfrifol.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd

#### Sector Cyhoeddus

- Gweithredu dyletswyddau a pholisïau newydd sy'n debygol o gael y mwyaf o effaith ar y partneriaid cymdeithasol.
- Dyletswyddau ychwanegol o safbwynt caffael i brifysgolion a allai gynyddu costau gweinyddol neu effeithio ar brisiau contractau.

#### Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd.

## Undebau Llafur

- Heb yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn ymateb.
- Potensial i'r costau gael eu tanamcangyfrif yn wyneb y cynnig o 3 dyletswydd newydd ar gyrrff cyhoeddus.

## **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Angen cynyddu capasiti'r sector caffael.
- Angen dadansoddiad clir o'r costau a'r buddion cysylltiedig.

### Sector Preifat

- Cytundeb sylweddol.

### Trade Unions

- Dim ymateb o sylwedd

### Trydydd Sector

- Angen mwy o fanylder yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- Angen gwreiddio asesiadau o fewn egwyddorion a oedd yn bod eisoes a nodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Unigolion

- Dim ymateb o sylwedd

## **Cwestiwn 23**

- 8.25 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 23 yn y ddogfen ymgynghori: 'A oes gennych dystiolaeth ychwanegol neu wahanol a allai helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol?' Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â thystiolaeth ychwanegol y gallai ymatebwyr dynnu sylw ati helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

- 8.26 Ni allai'r mwyafrif o ymatebwyr nodi tystiolaeth ychwanegol fel gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 8.27 Fodd bynnag, fe wnaeth lleiafrif o ymatebwyr grybwyll ffynonellau ychwanegol o dystiolaeth gan gynnwys:
- Data caffael Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru.
  - Potensial i gynnwys dystiolaeth ar grwpiau a dan-gynrychiolir yn y sector adeiladu.
  - Data ar dan-gynrychiolaeth merched sydd â dyletswyddau gofal plant mewn swyddi arweinwyr.
  - Enghreifftiau mewn sefydliadau o gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol ar gyfer cyllid grant.
  - Yr Awdurdod Adeiladu Statudol fel enghraifft o arfer dda.
- 8.28 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am well dealltwriaeth o nifer o bynciau gan gynnwys:
- Effaithiau ar y rheini a gaiff eu hallgáu o gwmpas y Bil.
  - Sut y cydnabyddir undebau llafur gan gyrrff cyhoeddus a sut maent yn rhyngweithio â hwy
  - Sut y gellid rhesymoli'r rheoleiddio presennol i leihau'r gost.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd.

#### Sector Cyhoeddus

- Potensial i rannu data caffael Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru.

#### Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd

#### Undebau Llafur

- Codwyd pryder ynghylch effeithiau ar y rheini sydd y tu hwnt i gwmas y Bil.
- Angen gwell dealltwriaeth ynghylch sut y cydnabyddir undebau llafur gan gyrrff cyhoeddus a sut maent yn rhyngweithio â hwy.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

#### Sector Cyhoeddus

- Potensial i gynnwys dystiolaeth ar grwpiau a dan-gynrychiolir yn y sector adeiladu.

#### Sector Preifat

- Cyfle i resymoli'r rheoliadau presennol i leihau costau.

#### Trydydd Sector

- Enghraifft bosibl o sefydliad yn cyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol ar gyfer cyllid grant.

#### Unigolion

- Cyfle i adolygu cynrychiolaeth o ferched sydd â dyletswyddau gofal plant mewn swyddi rheolwyr.

### **Cwestiwn 24**

- 8.29 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 24 yn y ddogfen ymgynghori: 'Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r hyn a gynigir yn y Bil drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?' Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r effaith y disgwylir i'r Bil hwn gael ar y Gymraeg a sut y gellid gwella'r effeithiau posibl.

- 8.30 Roedd mwyafrif o ymatebwyr yn mynegi eu bod yn disgwyl effaith cadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r Bil gan gynnwys:
- Mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg.
  - Dosbarthiad daearyddol ehangach o gyfleoedd.
  - Cynnydd mewn cyflenwyr Cymraeg eu hiaith o fewn cadwyni cyflenwi.
  - Cryfhau egwyddorion Safonau'r Gymraeg i fwy o gyflogwyr.
- 8.31 Roedd lleiafrif o ymatebwyr yn tynnu sylw at rai effeithiau negyddol gan gynnwys:
- Effaith negyddol posibl ar gystadleurwydd busnesau bach a chanolig yn sgil llai o gapasiti i gyflawni gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg.
  - Effaith negyddol posibl ar fusnesau yng Nghymru sy'n ddibynol ar gyflenwyr o Loegr.
  - Busnesau Seisnig yn cael eu trin yn llai ffafriol na busnesau Cymreig.
  - Gall y potensial o gynhyrchu dau ddarn o ddeddfwriaeth i fodloni gofynion dwyieithog achosi dryswch i fusnesau.
- 8.32 Fodd bynnag, roedd nifer o ymatebwyr yn tynnu sylw at ffyrdd y gellid ymestyn effeithiau cadarnhaol y Bil trwy'r canlynol:
- Mwy o eglurder ynghylch gofynion yn ymwneud â'r iaith.
  - Pwyslais ar gymhellion i fodloni gofynion iaith yn hytrach na mesurau cosbi.
  - Cyfle i gyd-drafod â'r rheini sydd y tu hwnt i gwmpas y bil hwn.
  - Cynnwys siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor.
  - Adolygu'r cynigion yn rheolaidd.
  - Mwy o gefnogaeth anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg.



8.33 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at yr angen am wreiddio gofynion y Gymraeg yn ddyfnach o fewn polisi presennol gan gynnwys y canlynol:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Safonau'r Gymraeg sy'n deillio o'r Mesur.
- Yr Hysbysiadau Cydymffurfio mae gan sefydliadau sector cyhoeddus rwymedigaeth statudol i gydymffurfio â hwy.
- O fewn Safonau'r Gymraeg, safonau 57, 58 a 59.

### **Ymatebion yn ôl sector: aelodau'r Cyngor Cysgodol**

Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd

Sector Cyhoeddus

- Ni ddisgwylir effaith negyddol fodd bynnag potensial am fwy o eglurder ynghylch y gofynion iaith.

Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd

Undebau Llafur

- Ni ddisgwylir effaith negyddol, tebygolrwydd o fwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg.
- Fodd bynnag, potensial am fwy o eglurder ynghylch gofynion iaith.

### **Ymatebion yn ôl sector: rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

Sector Cyhoeddus

- Roedd tebygolrwydd o effaith cadarnhaol y gellid ei wella ymhellach trwy ehangu cyfle i weithredu i'r rheini y tu hwnt i gwmpas y Bil hwn.
- Codwyd pryder y gallai'r Bil effeithio'n negyddol ar fusnesau bach a chanolig neu fusnesau sy'n ddibynnol ar gyflenwyr o Loegr.

#### Sector Preifat

- Pwyslais ar gymhellion i gyrraedd safonau iaith yn hytrach nag ar fesurau cosbedigol.

#### Undebau Llafur

- Dim ymateb o sylwedd.

#### Trydydd Sector

- Dim effaith negyddol ar y Gymraeg ond dylid sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

#### Unigolion

- Angen mwy o gefnogaeth anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg.

### **Cwestiwn 25**

- 8.34 Mae'r adran hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 25 yn y ddogfen ymgynghori: 'Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig yn y Bil drafft gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.' Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â mesurau ychwanegol y gellid eu cyflwyno i fanteisio i'r eithaf ar fuddion y Bil i'r Gymraeg a lleihau ei effeithiau negyddol arni.

- 8.35 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cydnabod effeithiau cadarnhaol posibl y Bil ar y Gymraeg gan gynnwys:
- 'hyrwyddo a datblygu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg'
  - 'gwerthfawrogi a datblygu sgiliau'r gweithlu'
  - 'rhan o'r gwaith o greu Cymru gyfartal a llewyrchus'
- 8.36 Fodd bynnag, codwyd mesurau eraill i ymestyn ymhellach effeithiau cadarnhaol y Bil ar y Gymraeg gan gynnwys:
- Gofynion ar bob sefydliad i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Adolygiad gan y Cyngor o sut y gellir gwreiddio'r nodau ynglŷn â'r Gymraeg yn ddyfnach yn y farchnad lafur ar lefel genedlaethol a lleol.
- 8.37 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle gellid pwysleisio'r Gymraeg yn fwy, gan gynnwys:
- Annog gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth a Rheoli Newid ym mhob sefydliad.
  - Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg y gweithlu o hawliau a dyletswyddau cyflogaeth.
  - Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael at wasanaethau cyhoeddus yn yr iaith o'u dewis.
  - Ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus gyflawni asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wrth gynllunio, datblygu a chyflawni.
- 8.38 Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at bolisi a oedd yn bod eisoes yn y maes hwn ac yn cynnig dulliau o wella effeithiau ar y Gymraeg trwy gryfhau'r polisi presennol ymhellach a chynyddu cydnawsedd y Bil newydd â'r polisi. Roedd y polisi presennol y tynnwyd sylw ato yn cynnwys:
- Safonau'r Gymraeg 57, 58, 59 (2011)
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

## **Ymatebion yn ôl sector: aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd

### Sector Cyhoeddus

- Potensial am fwy o bwyslais ar y gofynion iaith a gynhwysir yn y Bil.

### Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd

### Undebau Llafur

- Gellid mynegi mwy o ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol.

## **Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Potensial am fwy o bwyslais ar y gofynion iaith a gynhwysir yn y Bil.

### Sector Preifat

- Pwyslais ar gymhellion i gyrraedd gofynion iaith yn hytrach na mesurau cosbedigol.

### Undebau Llafur

- Potensial i hyrwydd diwylliant gweinyddu Cymraeg i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol cysylltiedig.

### Trydydd Sector

- Cyfle i'r Bil sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael at wasanaethau cyhoeddus yn eu hiaith ddewisol.

## Unigolion

- Dim ymateb o sylwedd

## **Cwestiwn 26**

- 8.39 Mae'r bennod hon yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar gyfer Cwestiwn 26 yn y ddogfen ymgynghori: 'Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.' Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi lle i ymatebwyr dynnu sylw at unrhyw bryderon neu sylwadau ychwanegol y gallent eu cael ynglŷn â'r Bil.
- 8.40 Cododd ymatebwyr nifer o bryderon y tynnwyd sylw atynt eisoes mewn ymatebion i gwestiynau blaenorol gan gynnwys:
- Pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol
  - Cyfle am fwy o gysondeb polisi
  - Strategaethau ar gyfer hyrwyddo cydymffurfio
  - Pryder ynghylch cynrychiolaeth gyfyngedig y Cyngor a diffyg cyddrafod
  - Cyfleoedd am eglurder
  - Pryderon ynghylch y potensial o allgáu busnesau bach a chanolig
- 8.41 Yn ogystal, roedd nifer o ymatebwyr na ddatgelodd unrhyw sylwadau pellach ar y Bil.

## **Pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol**

- Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at y bygythiad a achosir gan gymhwysedd deddfwriaethol cyfyngedig yn y maes hwn, yn enwedig yn wyneb y ddeddf ddiweddar, Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (2020)
- Roedd ymatebwyr yn codi pryderon bod gan anghydfodau ynghylch deddfwriaeth ar draws ffiniau y potensial i achosi

dryswch a gwaith ychwanegol i gyflenwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig.

- Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn nodi na fydd deddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol ynddi'i hun yn ddigon efallai i gyflawni amcanion gwaith teg.

### **Cyfle am fwy o gysondeb polisi**

8.42 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle gellid diwygio'r Bil newydd i gysoni'n well â'r polisiâu canlynol:

- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Llywodraeth Cymru
- Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru
- Rheoliadau Caffael Cyhoeddus diwygiedig
- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

8.43 Roedd ymatebwyr yn dadlau y gallai mwy o gysondeb polisi leihau dryswch a hyrwyddo cydymffurfio.

8.44 Roedd ymatebwyr yn awgrymu hefyd y byddai cysoni gofynion adrodd, lle gellir gwneud hyn, yn lleihau'r risg o ddyblygu a beichiau gweinyddol posibl ar fusnesau, gyda busnesau bach a chanolig yn faes o bryder neilltuol.

8.45 Cynigiodd un ymatebydd y gallai diwygio deddfwriaeth bresennol neu gyflwyno canllawiau statudol fod yn ffordd fwy cost-effeithiol o gyflawni nodau gwaith teg na chyflwyno deddfwriaeth newydd.

### **Strategaethau ar gyfer hyrwyddo cydymffurfio**

8.46 Roedd ymatebwyr yn tynnu sylw at nifer o strategaethau y gellid eu defnyddio i hyrwyddo cydymffurfedd â dyletswyddau, gyda phwyslais penodol ar gaffael, gan gynnwys:

- Cydnabyddiaeth o amrywiaeth o gyfyngiadau amser ac adnoddau i wahanol gyflenwyr.
- Codwyd pryderon ynghylch y potensial i gwmnïau roi eu gofynion deddfwriaethol ar gontract allanol gan gynnwys dyletswyddau o dan y Bil newydd.
- Cyfyngu'r caniatâd i geisio am waith cyhoeddus i gwmnïau a all ddangos perfformiad blaenorol digonol yn erbyn safonau agored o gontractio.
- Creu ffyrdd y gall is-gontractwyr godi digwyddiadau o ddiffyg cydymffurfio.
- Adolygu, hyfforddi a phrosesu newid mewn adrannau caffael.

8.47 Roedd un ymatebydd hefyd yn tynnu sylw at y cyfle i Lywodraeth Cymru arwain trwy esiampl trwy amlygu'r angen am well cynaliadwyedd amgylcheddol wrth iddi gaffael bwyd môr fel un enghraifft.

### **Pryder ynghylch cynrychiolaeth gyfyngedig y Cyngor a diffyg cyd-drafod**

- 8.48 Roedd ymatebwyr o'r Trydydd Sector yn codi pryder na ellid cynrychioli'r holl drydydd sector yn ddigonol ar y cyngor trwy un sefydliad.
- 8.49 Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch diffyg cyd-drafod ehangach gyda'r Cyngor, gyda chyfeiriad penodol at ysgolion, rheini, sefydliadau teuluol a gweithwyr nad ydynt yn aelodau undeb.

### **Cyfleoedd am eglurder**

- 8.50 Fe wnaeth un ymatebydd o'r sector preifat godi nifer o bryderon ynghylch ymadroddi gwan yn y Bil y gellid eu defnyddio i hwylso peidio â chydymffurfio, gan gynnwys:
- Cymal 9 (1) Rhaid i awdurdod contractio "geisio" gwella llesiant ... economaidd, cymdeithasol ei faes trwy gyflawni caffael cyhoeddus mewn ffordd cymdeithasol gyfrifol.

- Cymal 11 (a) Awdurdodau contractio i “dalw sylw” i’r cymalau partneriaeth gymdeithasol enghreifftiol i’w cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru
- Mae Cymalau 13(3b) a 14(3) yn rhybuddio yn erbyn defnyddio’r geiriau “yn sylweddol yr un effaith”.

### **Pryderon ynghylch y potensial o allgáu busnesau bach a chanolig**

- 8.51 Roedd nifer o ymatebwyr yn codi pryderon ynghylch y potensial i fusnesau bach a chanolig gael eu rhoi dan anfantais yn y broses gaffael oherwydd eu capasiti llai i gymryd beichiau gweinyddol ychwanegol.
- 8.52 Roedd ymatebwyr yn awgrymu mesurau y gellid eu cyflwyno i liniaru hyn gan gynnwys:
- Cefnogaeth a hyfforddiant i fusnesau bach a chanolig trwy gydol y broses ymgeisio.
  - Proses o apelio yn erbyn penderfyniad caffael os yw sefydliadau’n teimlo eu bod wedi cael eu rhoi dan anfantais annheg yn y broses.

### **Aelodau o’r Cyngor Cysgodol**

#### Comisiynydd

- Dim ymateb o sylwedd

#### Sector Cyhoeddus

- Pryderon ynghylch effaith posibl Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

#### Sector Preifat

- Dim ymateb o sylwedd

#### Undebau Llafur



- Gellid mynegi ymrwymiad mwy i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Bil partneriaeth gymdeithasol.

## **Rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor Cysgodol**

### Sector Cyhoeddus

- Angen cyd-drafod ehangach gyda gweithwyr nad ydynt yn aelodau undeb a chynnwys ysgolion yng nghwmpas y Bil.
- Cyfle am gysoni ehangach a lleihau dyblygu wrth adolygu rheoleiddio gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru, y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus diwygiedig a Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Cyfle am fonitro a gorfodi cryfach trwy wneud gofynion adrodd yn orfodol a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer y corff ymchwilio caffael canolog.
- Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch cyfyngiadau adnoddau a'r potensial am i waith o'r fath ddargyfeirio adnoddau oddi wrth y ddarpariaeth o wasanaethau.

### Sector Preifat

- Galw am gyfyngu cyfle am ddiffyg cydymffurfio trwy gryfhau'r iaith a gynhwysir yn y Bil a chyfyngu ar gyfleoedd i roi gofynion deddfwriaethol i gontract allanol a sicrhau craffu ar ddiffyg cydymffurfio.

### Undebau Llafur

- Dim ymateb o sylwedd.

### Trydydd Sector

- Cyfle am adolygiad systematig o arferion caffael presennol a mwy o gysondeb â hwy.

- Angen tryloywder, hyfforddiant a phroses o apeliadau pan wneir penderfyniadau caffael er mwyn sicrhau nad yw sefydliadau llai yn cael eu hallgáu yn annheg o'r broses.
- Cyfle i wella mabwysiadu'r arferion gorau trwy Lywodraeth Cymru yn arwain trwy esiampl, or ran cyflogi pobl sydd ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth.
- Codwyd pryder ynghylch tan-gynrychioliaeth o'r sector gwirfoddol ar y Cyngor, yn wyneb eu cyfraniad at amcanion llesiant ehangach.

#### Unigolion

- Cyfle am fwy o ymgynghori gyda sefydliadau teuluol a rhianta, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion teuluoedd a rhieni.

## Atodiad A. Rhestr o Sefydliadau a Ymatebodd

<b>Sefydliadau</b>
Actuate UK
Adra (Tai) Cyfyngedig
Advisory, Conciliation and Arbitration Service (ACAS)
Anabledd Dysgu Cymru
Anthony Collins Solicitors LLP
Archwilio Cymru
Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)
British Dietetic Association
Business in the Community
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Capital Law
Carnegie UK Trust
Citizens Advice Cymru
Clinig y Gyfraith Abertawe
Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM)
Coleg Brenhinol y Nyrsys, Cymru (RCN Cymru)
Colegau Cymru
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Community Leisure UK
Confederation of British Industry (CBI) Cymru
Consortium Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW)
Cyflogwyr Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Abertawe
Cyngor Busnes Gogledd Cymru Mersi Dyfrdwy (NWMD)
Cyngor Caerdydd
Cyngor Caerffili
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW)
Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS)
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru)
Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA) Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA) Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithasau Tai Cadwyn, First Choice a Newydd
Cymeithas Tai Linc-Cymru Cyf
Cymorth Cymru
Cymwysterau Cymru
Chambers Wales
Chwarae Teg
Chwaraeon Cymru
ESC International
Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru
GMB
Gofal Cymdeithasol Cymru
Gofalwyr Cymru
Golygfa Gwydyr
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Leonard Cheshire
Llais y Goedwig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Maint Cymru
Marie Curie
Mudiad Meithrin
NASUWT
National Education Union (NEU) Cymru
National Union of Rail, Maritime & Transport Workers (RMT)
Passenger Transport Cymru
Prifysgol Caerdydd
Prifysgolion Cymru
Prospect
Public and Commercial Services union (PCS)
SCT Cymru

Sefydliad Bevan
Sefydliad Hawliau Cyflogaeth (IER)
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru (UCU Wales)
Unison Cymru
Unite the Union Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS)
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor

## **Atodiad B. Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

Pam mae angen y Bil

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r rhesymau a nodir ynghylch yr angen am y Bil? A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr achos o blaid newid?

Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Partneriaeth gymdeithasol

Cwestiwn 2: Beth yw'ch barn ar y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a nodir yn y Bil drafft?

Cwestiwn 3: Beth yw'ch barn ar yr egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a restrir ac a ddiffinnir yn y tabl o dan yr adran hon?

Cwestiwn 4: Beth yw'ch barn ar y rhestr o gyrrff y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Bil drafft yn berthnasol iddynt? A ddylai'r rhestr o gyrrff fod yn ehangach na'r rheini y mae'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt?

Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Gwaith teg

Cwestiwn 5: Beth yw'ch barn ar y dyletswyddau arfaethedig a roddir ar Weinidogion Cymru o ran amcanion gwaith teg?

Cwestiwn 6: Beth yw'ch barn ar y prif heriau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer anelu at waith teg a'i hyrwyddo?

Cwestiwn 7: A oes gennych chi farn ar sut mae fframio diffiniad cyfreithiol ar gyfer gwaith teg sy'n bodloni cyfyngiadau ein cymhwysedd deddfwriaethol ac yn gwneud cynnydd o ran ein huchelgeisiau ar gyfer 'Gwaith Teg yng Nghymru'?

Cwestiwn 8: Yn ogystal â'r hyn a nodir yn y Bil drafft, pa ddulliau eraill allai Gweinidogion Cymru eu defnyddio i hyrwyddo a chyflawni gwaith teg?

Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Cwestiwn 9: Beth yw'ch safbwyntiau cyffredinol ar y darpariaethau a'r trothwyon a nodir ynghylch y dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, gan gynnwys y categorïau a restrir yn y cymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol?

Cwestiwn 10: Beth yw'ch barn ar y mesurau posibl, y tu allan i'r rheini a nodir, y byddai modd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol?

Cwestiwn 11: Beth yw'ch barn ar y tabl o awdurdodau contractio uchod sy'n ymwneud â'r dyletswyddau o ran caffael cymdeithasol gyfrifol a'r gweithlu cyhoeddus cymdeithasol (Cod Dwy- Haen)?

Cwestiwn 12: A ddylid cadw'r rhestr bresennol o awdurdodau contractio sydd wedi'u cynnwys yn y Cod y Gweithlu Dwy-Haen neu a ddylid cysoni hyn â gweddill y dyletswyddau caffael? A ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol i'r ffordd mae'r Cod yn gweithredu?

Cwestiwn 13: Sut gellir cyflawni gwell diwydrwydd dyladwy wrth reoli cadwyni cyflenwi ym maes adeiladu, gan gadw'r costau mor isel â phosibl, yn enwedig ar gyfer contractwyr llai mewn cadwyni cyflenwi?

Cwestiwn 14: Beth yw'ch barn ar y posibilrwydd o ehangu'r ddyletswydd rheoli contractau – o ran y prosesau gwneud cais, cynnal a chadw a monitro – drwy'r gadwyn gyflenwi o gymalau cymdeithasol gyfrifol i sectorau eraill y tu hwnt i adeiladu (er enghraifft, gofal cymdeithasol) yn y dyfodol?

Darpariaethau allweddol y Bil drafft: Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Cwestiwn 15: Beth yw'ch barn ar y darpariaethau a nodir yn y Bil drafft ynghylch:

a. Aelodaeth o'r Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol.

b. Y broses enwebu arfaethedig?

Cwestiwn 16: Beth yw'ch barn ar y cynigion ynghylch sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'i weithrediadau a'i is-grwpiau?

Cwestiwn 17: Beth yw'ch barn ar y system partneriaeth gymdeithasol a amlinellir yng Nghymru, gan gynnwys rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol o ran arwain y system a'r cysylltiadau rhwng y gwahanol lefelau o bartneriaeth gymdeithasol?

Cefnogi gwelliant a sicrhau cydymffurfedd

Cwestiwn 18: O ran y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a ddylid datblygu mecanwaith gwella a chydymffurfio i sicrhau bod yr holl gyrrff yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cyfrannu ar y cyd at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?

Cwestiwn 19: A ddylid sefydlu mecanwaith dyfarnu ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar lefel genedlaethol er mwyn uwchgyfeirio unrhyw achosion o fethu cytuno ar lefel sectorau? Os ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut byddai hyn yn gweithio'n ymarferol?

Cwestiwn 20: Beth yw'ch barn ar y mesurau gorfodi a chydymffurfio arfaethedig yn y Bil drafft ynglŷn â rheoli contractau a chaffael cymdeithasol gyfrifol? Pa fesurau eraill y byddai modd eu defnyddio? A oes gennych unrhyw awgrymiadau o ran sut gallai gwahanol fesurau gorfodi a chydymffurfio weithio'n ymarferol?

Cydraddoldeb ac effeithiau

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r effeithiau a amlinellir yn yr adran hon? A oes goblygiadau anfwriadol posibl i grwpiau penodol y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 22: O ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ydych yn cytuno â'r asesiad o'r costau a'r buddion tebygol sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil drafft? Os nad ydych yn cytuno, esboniwch pa elfen(nau) penodol rydych yn anghytuno â nhw a pham.

Cwestiwn 23: A oes gennych dystiolaeth ychwanegol neu wahanol a allai helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol?

Cwestiwn 24: Hoffem glywed eich barn ar yr effeithiau y byddai'r hyn a gynigir yn y Bil drafft yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 25: Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig yn y Bil drafft gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.